

CYNGOR BRO MORGANNWG

Adroddiad Hunanasesu Blynyddol

2021-22



VALE of GLAMORGAN



BRO MORGANNWG

1.0 Cyflwyniad gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Prif Weithredwr

Y Cyngorydd Lis Burnett, Arweinydd Gweithredol y Cyngor a Rob Thomas, Prif Weithredwr

Mae'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol yn adlewyrchu gwaith y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf wrth weithio i wireddu ein gweledigaeth 'Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair'. Mae'n gyfle i amlygu a dathlu ein llwyddiannau allweddol yn ogystal â nodi'r heriau sydd gennym o hyd i'w taclo. Nod y canfyddiadau hunanasesu yw rhoi cyfrif gonest a chytbwys o'n perfformiad wrth gyflawni ein hymrwymiaidau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22. Mae'n defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data a mewnwelediad arall o'n fframwaith cynllunio a pherfformio blynyddol sydd wedi ein galluogi i ddod i gasgliadau ynglŷn â pha mor dda yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi cyflawni Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.



Ar y cyfan, yn seiliedig ar yr adolygiad o berfformiad y llynedd, rydym ni'n credu ein bod wedi bodloni ein hymrwymiaidau Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22, yn yr hyn a barhaodd i fod yn flwyddyn heriol i'r Cyngor.

Mae wedi bod yn flwyddyn gadarnhaol iawn ac rydym yn falch o fod wedi cyflawni cymaint mewn cyfnod mor heriol. Rydym wedi cydweithio'n llwyddiannus gyda'n partneriaid, ein cymunedau, ein preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth i barhau i ymateb i effaith barhaus y pandemig, tra ar yr un pryd, yn symud yn gyflym i gefnogi ein hadferiad. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi parhau i amddiffyn a darparu gwasanaethau hanfodol a gwerthfawr gan gyfrannu at ganlyniadau gwell a lles dinasyddion Bro Morgannwg yn gyffredinol.



Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni blaenoriaethau allweddol gan gynnwys; ysgolion newydd fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu; cyfnewid contractau â Choleg Caerdydd a'r Fro ar ddatblygu coleg yng Nglannau'r Barri; parhau â'n rhaglen adeiladu tai Cyngor uchelgeisiol sy'n ymgorffori technolegau gwyrdd newydd i leihau ein hól-troed carbon; cynyddu'r dewis sydd ar gael i drigolion (oedolion) sy'n agored i niwed i gefnogi a gwella eu lles drwy'r fenter 'Eich Dewis'; cefnogi'n ariannol 26 o brosiectau a arweinir gan y gymuned drwy ein Cronfa Cymunedau Cryf, sydd wedi bod o fudd i gymunedau; buddsoddi mewn technoleg ddigidol ochr yn ochr â rhyngweithio wyneb yn wyneb i wella ein cyrhaeddiad a'n hymgysylltiad â dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth, dysgwyr a phartneriaid; mwy o gyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol drwy dargedu ardaloedd o gyfranogiad isel drwy amrywiaeth o fentrau sy'n cynnwys bron i 280 o sefydliadau partner; sicrhau bron i £18.75m o gyfraniadau cynllunio sydd wedi'u neilltuo i gynlluniau gwella cymunedol ar draws y Fro; bwrw ymlaen â phrosiect uchelgeisiol i leihau digartrefedd a chefnogi pobl i symud ymlaen i lety mwy parhaol; cefnogi preswylwyr sy'n dioddef ansicrwydd bwyd wrth leihau gwastraff bwyd drwy gynlluniau megis Pod Bwyd Penarth, Mynediad Bwyd Llanilltud Fawr - CF61 Food Share, Big Bwcs Bwyd yn y Barri, Cadfeld Van ac Ysgol y Draig.

Ni fyddai'r cyflawniadau hyn wedi bod yn bosibl heb ymroddiad ein staff, gwirfoddolwyr a'n partneriaid sydd wedi ymateb gyda hyblygrwydd ac ystwythder - gan helpu preswylwyr i gael mynediad at wasanaethau mewn ffyrdd newydd a gwahanol i sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi drwy'r cyfnod heriol hwn.

Rydym ni nawr yn addasu i fyw gyda Covid-19 ar ôl i'r cyfyngiadau olaf gael eu codi y llynedd. Fodd bynnag, rhaid i ni barhau i fod yn wiliadwrus, ac rydym wedi ymrwymo i ddod allan o'r argyfwng hwn yn gryfach nag erioed a pharhau i dyfu fel lle o gyfle ac uchelgais i bawb.

Wrth edrych ymlaen, mae yna heriau a meysydd sylweddol lle mae angen i ni wneud mwy gan gynnwys cyflymu ein hadferiad economaidd, ymateb i'r argyfwng costau byw, trechu tlodi ac anghydraddoldeb, cefnogi a gwella iechyd meddwl a lles pobl ifanc, cryfhau cyfranogiad y cyhoedd a dod o hyd i atebion cynaliadwy i fynd i'r afael â'r pwysau sylweddol ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol, tai a digartrefedd. Rhaid i ni hefyd fuddsoddi mewn amddiffyn ein hamgylchedd drwy'r Prosiect Sero a pharhau â'n huchelgais i gyflawni statws sero net erbyn 2030, a fydd hefyd yn helpu i gefnogi swyddi, sgiliau a chyfleoedd i bobl leol. Mae'r rhain yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor am y dyfodol rhagweladwy. Rydym yn cydnabod bod angen i ni wella capasiti mewnol a gwneud y mwyaf o'r defnydd o wybodaeth a dealltwriaeth leol o'n cymunedau er mwyn helpu i fynd i'r afael ag ôl economaidd-gymdeithasol y pandemig. Mewn ymateb, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn adeiladu gweithlu hyblyg ac addasadwy sy'n gynhyrchiol ac ystwyth, sy'n defnyddio technoleg a mewnwelediad data yn effeithiol ac sy'n ymgysylltu'n effeithiol â thrigolion, cymunedau a phartneriaid i ddarparu gwasanaethau a lleihau anghydraddoldebau. Bydd yr agendâu Codi'r Gwastad a Ffyniant a Rennir hefyd yn rhoi cyfleoedd i ni gydweithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid o ran adeiladu economi gynaliadwy sy'n cefnogi ffyniant i bawb.

Mae ein sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol, wedi'i waethygu nid yn unig gan y pwysau sylweddol yn sgil pandemig Covid-19 ond hefyd gan setliadau ariannol tymor byr gan Lywodraeth Cymru sy'n llesteirio cynllunio ariannol hirdymor a'n cynaliadwyedd ariannol yn gyffredinol. Byddwn ni'n parhau i lobio Llywodraeth Cymru am setliad aml-flwyddyn i alluogi cynllunio ariannol effeithiol i gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau ar gyfer y tymor hir. Er yr ansicrwydd parhaus rydym yn eu hwynebu, byddwn yn parhau i gymhwyso rheolaeth ariannol gadarn a doeth a chydweithio gyda'n cymuned gyfan fel y gallwn barhau i fuddsoddi yn ein Cyngor a Bro Morgannwg. Wrth i ni barhau i lywio ac esblygu ein gwasanaethau lleol yn yr hinsawdd ansicr hon, mae bellach yn bwysicach nag erioed ein bod yn parhau i fod yn **uchelgeisiol, agored, balch a gyda'n gilydd** wrth gydweithio tuag at greu **Cymunedau cryf â dyfodol disglair**.

2.0 Cynnwys

3.0 Ymateb i Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg	4
4.0 Ein Hadroddiad Hunanasesu.....	13
5.0 Ein perfformiad yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22	16
5.1 Perfformiad ein Cynllun Cyflawni Blynyddol yn ôl Amcanion Lles	18
5.2 Ein Blwyddyn mewn Rhifau 2021-22	20
6.0 Prif Berfformiad 2021/22.....	24
6.1 Gweithredu Prosiect Sero	25
6.2 Ymateb i'r Argyfwng Costau Byw.....	28
6.3 Cynnwys ein Cymunedau.....	32
6.4 Darparu Gofal a Chymorth	35
6.5 Gwella ein Seilwaith.....	38
6.6 Trawsnewid y ffordd rydyn ni'n gweithio	41
7.0 Sut rydyn ni'n defnyddio ein hadadnoddau	44
7.1 Cyflawniadau	45
7.2 Heriau, risgiau a chyfleoedd.....	46
7.3 Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol	47

3.0 Ymateb i Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi wynebu heriau sylweddol o amrywiaeth o faterion yn dod i'r amlwg megis ein hymateb a'n hadferiad parhaus i bandemig Covid-19, y materion dyngarol a diogelwch byd-eang yn dod i'r amlwg yn deillio o oresgyniad Wcráin, yr argyfwng newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng ynni a chostau byw byd-eang. Er bod y DU wedi cwblhau ei phroses bontio o'r UE a sicrhau cytundeb masnach ar ôl Brexit, mae'r berthynas rhwng yr UE a'r DU dan straen, ac mae'r effeithiau economaidd a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Brexit yn parhau i fod yn achos o bryder. Amlinellir isod grynodedeb o'r tueddiadau / heriau allweddol yn ogystal â'n hymateb arfaethedig hyd yma ynghyd â'r hyn y byddwn yn canolbwyntio arno dros y flwyddyn sydd i ddod.

Yr Argyfwng Hinsawdd

Mae'r Cyngor yn cydnabod mai newid yn yr hinsawdd ac ecolegol yw her mwyaf ein hoes.



Mewn ymateb i'r Cyngor yn datgan Argyfwng Hinsawdd, sefydlodd y Cyngor y [Prosiect Sero](#) sy'n nodi ymrwymiad y Cyngor i leihau allyriadau carbon i sero net erbyn 2030. Mae'r prosiect hwn yn dod ag amrywiaeth o bolisïau, strategaethau a chynlluniau gwaith sydd eisoes ar y gweill at ei gilydd. Mae hefyd yn amlinellu'r heriau sy'n ein hwynebu a beth yw ein gweithgareddau arfaethedig i wynebu'r heriau hyn fel datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, gwella statws carbon ein stoc dai, ysgolion ac adeiladau cyhoeddus, hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â chaffael cynaliadwy a chanolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned. Mae'n cydnabod bod gan bawb rôl i'w chwarae a chyfrifoldeb i feddwl am ein hetifeddiaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yr her mawr sy'n gysylltiedig â Phrosiect Sero yw sut y byddwn yn cyflawni'r hyn yr ydym wedi'i nodi yn ein [Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd](#) (yn benodol y deunaw her sy'n cael eu hamlinellu yn y Cynllun) gyda'r angen i ddangos arweiniad cryf, cyflawni ein cyfrifoldeb o ran cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol a gwneud gwahaniaeth nawr. Bydd hyn yn parhau i fod yn faes ffocws clir wrth symud ymlaen ochr yn ochr â'r angen i ddatblygu ymhellach ac yna gynnal y buddsoddiad a'r arloesedd a chanolbwyntio ar y camau sydd eu hangen dros y blynyddoedd nesaf. Mae un o'r heriau mawr eraill yn ymwneud ag ymgysylltu â'n cymunedau i'n cefnogi i gyflawni Prosiect Sero a hwyluso newid ar lawr gwlad. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi cael sgysia cadarnhaol gyda dinasyddion ynglŷn â'r agenda newid yn yr hinsawdd, sydd wedi tynnu sylw at yr awydd cryf o fewn cymunedau i weld a bod yn rhan o'r newid hwn. Wrth edrych ymlaen bydd ein pwyslais ar sut rydym yn manteisio ar hyn i rymuso ein dinasyddion yn ehangach i chwarae 'rôl fwy gweithredol' wrth ddiffinio a gweithio tuag at ein nodau sero net. Y gobaith yw y bydd goresgyn yr heriau hyn yn ein galluogi i gwrdd â'n nodau Prosiect Sero i **leihau allyriadau carbon y sefydliad i sero net erbyn 2030 a chyfrannu at Gymru sero net erbyn 2050.**

Ym mis Gorffennaf 2021, datganodd y Cyngor hefyd argyfwng natur mewn ymateb i'r cyswllt cydnabyddedig rhwng newid yn yr hinsawdd, colli cynefinoedd ac effaith hynny ar ein hecoleg a'n bioamrywiaeth. Mae [Cynllun Gweithredu](#) Bioamrywiaeth Leol yn cael ei weithredu ac mae gweithgareddau a nodwyd trwy'r cynllun hwn hefyd yn cyd-fynd â gwaith Prosiect Sero.

Gwnaed cynnydd cadarnhaol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â'n hymrwymadau a nodwyd yn y Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd a fanylir yn ein [Adroddiad Diweddiad Prosiect Sero](#) diweddaraf ac mae'n cynnwys gwaith ar ddefnyddio a hyrwyddo cerbydau trydan, teithio llesol, ynni a thrafnidiaeth gynaliadwy a gwell seilwaith gan gynnwys ysgolion a chartrefi Cyngor carbon isel. Rydym hefyd yn creu ac yn ymgynghori ar gynlluniau galluogi allweddol megis y Cynllun Seilwaith Gwyrdd a'r Strategaeth Coed i wella ymhellach ein gallu i gyflawni ein nod sero net. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud.

Yr Argyfwng Costau Byw

Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i dyfu ac mae'n rhoi mwy a mwy o bwysau ariannol ar aelwydydd y DU. Dyma'r senario lle mae cost ein hanfodion bob dydd fel ynni, bwyd ac ati yn codi uwchben incwm cyfartalog. Mae nifer o rymoedd trawsbynciol y tu ôl i'r argyfwng esblygol hwn, sy'n adlewyrchu natur gymhleth a rhyng-gysylltiedig ein marchnadoedd byd-eang. Mae'r argyfwng wedi deillio'n bennaf o gynnydd mewn chwyddiant prisiau yn mynd y tu hwnt i'r twf mewn cyflogau a/neu fudd-daliadau, gan adael llai o incwm gwario ym mhocedi dinasyddion ac mae'r codiadau treth diweddar wedi gwaethygu'r sefyllfa ymhellach.

Mae'r data diweddaraf (Awst 2022) yn dangos bod chwyddiant wedi codi 10.1% yn y 12 mis hyd at fis Gorffennaf 2022, sydd i fyny 9.4% o fis Mehefin. Mae Banc Lloegr wedi rhagweld y bydd chwyddiant yn parhau i godi yn ystod 2022 ac y gallai chwyddiant godi i fwy na 13% os na wneir rhywbeth yn ei gylch. Mae Banc Lloegr hefyd yn rhagweld y bydd cyfnod lle ceir twf economaidd araf neu ddirwasgiad ynghyd â chwyddiant cynyddol.

O ran yr hyn sydd wedi gyrru'r chwyddiant, gellir dweud bod y cyfnod ôl-Covid yn rhannol gyfrifol, oherwydd pan ail-agorodd yr economi gwelwyd mwy o alw byd-eang am gynnyrch ar adeg pan oedd y tarfu ar gadwyni cyflenwi oherwydd Covid yn dal i fod yn broblem. Yn ogystal â hyn mae effeithiau parhaus Brexit hefyd wedi arwain at oedi a phrinder o ran nwyddau. Mae'r farchnad ynni hefyd wedi cyfrannu'n sylweddol at chwyddiant cynyddol. Ar yr adeg y cynyddodd y galw am ynni, roedd ein cyflenwad wedi'i leihau gan arwain at gynnydd cyfanwerthu byd-eang mawr o ran prisiau nwy. Er bod y cynnydd hwn wedi'i yrru'n wreiddiol gan ffactorau'n gysylltiedig â chyflenwad a galw, mae'r anwadalwch yn y farchnad ynni wedi'i waethygu ymhellach gan yr argyfwng yn Wcráin a'r bygythiad parhaus y bydd Rwsia'n diffodd cyflenwadau nwy i Ewrop. Cyfeirir at Wcráin fel 'bara Ewrop' yn enwedig o ran y ffaith ei bod yn allforio grawn ac olew blodau haul. Ers goresgyniad Wcráin, mae allforion o'r nwyddau hyn wedi dirywio'n sylweddol gan arwain at ofnau o ran ansicrwydd bwyd byd-eang, sydd, yn ogystal â phrisiau ynni, wedi arwain at bwysau chwyddiant ar fwyd. Yn ogystal â hyn, mae prisiau petrol a disel y DU wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed yn dilyn cynnydd yn y galw am danwydd wrth i'r economi agor yn gysylltiedig â Covid. Mae'r cynnydd mewn costau tanwydd yn dwysáu pwysau chwyddiant sy'n gysylltiedig â chludo cyflenwadau / nwyddau fel deunyddiau crai a bwyd. Mae'r cynnydd mewn treth a gyhoeddwyd yn ddiweddar hefyd wedi cyfrannu at y chwyddiant.

Ar y cyd â chostau byw cynyddol, mae gweithwyr yn gweld nad yw eu cyflogau yn cynyddu nac yn cadw i fyny â chwyddiant. O ganlyniad, mae ein cymunedau'n teimlo'r effaith ar eu cyllid. **Mae disgwyl i gostau byw godi ymhellach yn ystod y tymor agos i'r tymor canolig** a bydd angen i ni gefnogi ein cymunedau a'n dinasyddion i ymdopi gyda, a goresgyn effeithiau gwaethaf yr argyfwng hwn, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelu'r dinasyddion â'r amddifadedd mwyaf a'r rhai mwyaf agored i niwed. Mae data diweddar gan y ¹Swyddfa Ystadegau Gwladol sydd wedi llywio'r [Dadansoddiad Costau Byw Bro Morgannwg](#) diweddaraf yn dweud wrthym fod **tua 9 o bob 10 oedolyn yn parhau i adrodd bod eu costau byw wedi codi dros y mis diwethaf gyda bron i hanner (48%) yr oedolion yn dweud eu bod yn gwario mwy ar eu siopa bwyd** bob pythefnos. Nid oes unrhyw un yn ddiogel rhag effeithiau'r argyfwng costau byw, ond cydnabyddir yn eang ei fod yn effeithio'n anghymesur ar yr aelwydydd tlotaf, gan eu bod yn ei chael yn anoddach ymdopi â chyfraddau cynyddol chwyddiant. Rydym eisoes yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol (CC), taliad i helpu gyda chostau byw i'r rhai ar incwm isel neu allan o waith. Mae [Dadansoddiad o'r Effaith Economaidd](#) ar gyfer y sir yn dweud wrthym fod twf cyson wedi bod yn nifer y bobl oedd yn derbyn CC ar draws Bro Morgannwg rhwng Ebrill 2020 a Medi 2021. Ar ôl Medi 2021, dechreuodd yr hawlwr leihau *tan* Ebrill 2022 pan welsom gyfanswm o 9,694 o bobl yn derbyn CC. **Rhagwelir y gallai'r pwysau cynyddol hyn gael eu teimlo'n fwy gan y rhai a nodwyd eu bod yn fwy agored i niwed a'r aelwydydd hynny y gallai eu cyllidebau fod â'r lleiaf o gapasiti i amsugno'r pwysau hyn.**

¹ [Barn y cyhoedd a thueddiadau cymdeithasol, Prydain Fawr: 22 Mehefin - 3 Gorffennaf 2022](#)

Wrth edrych ymlaen, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol, o ran cefnogi'r rheiny sydd fwyaf **mewn angen sy'n profi caledi o ran tlodi bwyd / tanwydd, anghenion tai a chyflogaeth**. Un elfen allweddol o'n gwaith fydd y ffordd orau o dargedu ein hadnoddau yn effeithiol i gyrraedd y rhai mwyaf anghenus ac yn benodol i nodi unrhyw anghenion nas diwallwyd. Bydd hyn yn rhoi galw ychwanegol ar ein gwasanaethau ar adeg pan mae ein hadnoddau eisoes yn cael eu hymestyn. Yn yr un modd, mae'r Cyngor hefyd yn agored i bwysau costau cynyddol sy'n gysylltiedig â chwyddiant. Bydd cost gynyddol deunyddiau adeiladu, cyflenwadau bwyd, costau ynni a chyflogau staff i gyd yn cael effaith ar gostau darparu gwasanaethau, ar adeg pan nad yw ein cyllidebau'n gallu cadw i fyny â chostau byw cynyddol. O ganlyniad, gallai hyn herio ein gallu fel Cyngor i gynnal lefelau darpariaeth gwasanaethau, ac mae ganddo'r potensial i amharu ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion lles a'n blaenoriaethau allweddol fel Cyngor gan gynnwys rhaglenni cyfalaf mawr fel y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt), y rhaglen tai Cyngor a phrosiectau trawsnewid eraill sy'n cynnwys Prosiect Sero.

Mewn ymateb i'r argyfwng hwn, sefydlwyd y gweithgor Costau Byw ym mis Mai 2022. Mae'r grŵp yn cynnwys swyddogion o bob rhan o'r Cyngor ac yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol. Roedd y trafodaethau cychwynnol yn canolbwyntio ar oruchwylio'r broses o weinyddu pecyn Cymorth Costau Byw Llywodraeth Cymru sy'n rhoi taliad byw o £150 i bob cartref ym mandiau Treth Gyngor A-D ac i'r holl fandiau Treth Gyngor sy'n derbyn cymorth drwy Gynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor. Ym mis Mai 2022, dechreuom gyflwyno taliadau Cymorth Costau Byw gwerth £150 i fwy na 35,000 o breswylwyr cymwys o dan delerau Cynllun Llywodraeth Cymru i helpu gyda'r pwysau costau byw. Mae'r Grŵp hefyd wedi goruchwylio trefniadau gweinyddu cronfa ddewisol Llywodraeth Cymru i gefnogi'r rheiny nad ydynt yn gymwys ar gyfer y prif gynllun, ond sy'n cael eu heffeithio gan y pwysau ariannol sy'n gysylltiedig â chostau byw. Rhoddwyd disgrisiwn i'r Cyngor o ran pwy ddylai dderbyn yr elfen hon o gyllid. Ers hynny mae'r grŵp wedi cynnal adolygiad o gynlluniau grant dan reolaeth yr awdurdod i nodi cyfleoedd posibl lle gallai ffrydiau ariannu gefnogi trigolion ymhellach gyda chostau cynyddol. Mae'r darn hwn o waith hefyd wedi'i ddefnyddio i ddeall yn well a nodi unrhyw fylchau yn y modd yr ydym yn cefnogi grwpiau / unigolion sy'n agored i niwed o ran costau byw. Yn ogystal â hyn, mae dadansoddiad manwl o effeithiau posibl costau byw cynyddol wedi llywio'r broses o gyhoeddi [Hyb Cymorth Costau Byw](#) ar wefan y Cyngor a'r safle mewnol StaffNet. Mae'r hyb yn cynnig rhagor o wybodaeth lle gall trigolion gael mynediad at wybodaeth am gymorth a hawliadau a gwneud cais am fudd-daliadau ychwanegol. Bydd yr hyb yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd i ddarparu gwybodaeth am gymorth pellach wrth iddo ddod ar gael.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddiwallu anghenion y rhai sy'n profi caledi yn ein cymunedau. Rydym wedi cefnogi trigolion sy'n profi ansicrwydd bwyd tra'n lleihau gwastraff bwyd drwy gynlluniau ledled y Fro, fel Pod Bwyd Penarth, Llanilltud - Rhannu Bwyd CF61 a'r safleoedd Big Bwcs Bwyd yn y Sir ac wedi darparu dros 1,000 o fagiau argyfwng bwyd yn ystod Mai-Mehefin 2022. I fynd i'r afael â phwysau tai, fe wnaethom gwblhau Cam 1 Holm View a datblygiadau Cynllun Tai Brys Court Road ac rydym wedi gwneud cynnydd da gyda datblygiadau St Cyres Road, Hayeswood Road a Hayes Road. Rydym hefyd wedi parhau i gynnig gwasanaeth cymorth Siop Un Stop yn y Barri a Phenarth sydd wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaeth sydd i'w weld yn amlwg o ran eu sefyllfa tai, sefyllfa economaidd ac ariannol ac iechyd a lles personol gwell.



Bydd y gwaith hwn yn bwysicach byth yn y flwyddyn i ddod, a byddwn yn parhau i gefnogi'r rhai sy'n cael trafferthion gyda chostau byw ac sy'n cael trafferthion ariannol, problemau gyda'u sefyllfa tai neu'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyflogaeth addas. Bydd cynlluniau pellach yn cael eu datblygu, gan gynnwys "Croeso Cynnes" i gynnig manau cynnes drwy gydol yr hydref a'r gaeaf hwn.

Cynnwys ein Cymunedau

Mae cynnwys ac ymgysylltu â'n cymunedau yn ganolog i bopeth rydyn ni'n ei wneud. Roedd ymgysylltu â'n cymunedau yn ystod y pandemig nid yn unig yn hanfodol ond yn achubiaeth i lawer o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed ac ynysig. Gan weithio ochr yn ochr â Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, rydym wedi parhau i godi proffil gwirfoddoli drwy'r wefan Arwyr y Fro ac wedi ysgogi cefnogaeth mewn cymunedau i weithredu mewn meysydd sy'n bwysig i'n dinasyddion. Trwy gydol y pandemig, gwnaethom hefyd barhau i gefnogi ein dinasyddion agored i niwed o ran cael mynediad at drafnidiaeth i ganolfannau brechu a phrofi.



Rydym hefyd yn parhau i ymgysylltu â'n busnesau a grwpiau cymunedol lleol o ran sut y gallwn gynnig cefnogaeth a fydd yn adeiladu gwydnwch sefydliadol mewn cyfnod anodd. Gan ddysgu o'r hyn a wnaed gydag 'Arwyr y Fro', rydym am fanteisio ar ein llwyddiant blaenorol gan **adeiladu ar y perthnasau presennol wrth i ni addasu i ffyrdd newydd o weithio yn y byd modern, gan adlewyrchu newidiadau mewn technoleg ac ail-lunio ein gwasanaethau i sicrhau eu bod yn barod at y dyfodol. Adlewyrchir hyn yn ein hymateb i'r gwaith costau byw y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn yr adroddiad hwn.**

Dinasyddion a chymunedau yw 'ein harbenigwyr', maen nhw'n adnabod eu cymunedau ac yn deall beth maen nhw ei eisiau gan wasanaethau cyhoeddus ac yn y sefyllfa orau i nodi'r hyn sydd angen ei wella. Felly, rydym wedi ymrwymo i fod yn 'sefydliad sy'n gwrando'. Mae hyn yn gofyn i ni fel sefydliad allu deall yn well y cysylltiadau boed hynny rhwng pobl, llefydd a'u profiadau er mwyn dylanwadu ar newid a llywio datblygiadau gwasanaethau yn y dyfodol. Er mwyn gwneud hyn mae angen i ni ymgysylltu'n effeithiol a gwrando ar ein cymunedau, nid yn unig i wella ein gwasanaethau, ond hefyd i gyfrannu at wella lles cyffredinol ein dinasyddion. Rydyn ni'n gwybod bod pobl yn ymgysylltu â'r hyn maen nhw'n teimlo'n rhan ohono a'r hyn maen nhw'n ei werthfawrogi. Felly, mae datblygu fel 'sefydliad sy'n gwrando' sy'n ymgysylltu'n effeithiol â'i ddinasyddion a'i gymunedau lleol yn allweddol o ran datblygu ymdeimlad o berchnogaeth wrth wneud penderfyniadau lleol a darparu gwasanaethau.

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn ein galluogi i ddeall anghenion a dyheadau ein cymunedau yn well, fodd bynnag, nid yw heb ei heriau. Un o'r heriau mawr yw sut yr ydym yn **ymgysylltu gyda, ac yn nodi'n effeithiol, anghenion poblogaeth gynyddol amrywiol ac sy'n esblygu, er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n barod at y dyfodol ac yn cael eu llywio gan 'brofiad go iawn'. Un o'r heriau mawr eraill yw sut rydym yn goresgyn rhwystrau i ymgysylltu i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd a sut y gallwn ddangos ein 'diwylliant gwrando' drwy ein prosesau gwneud penderfyniadau. Yn olaf, mae heriau sy'n gysylltiedig â gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r Cyngor, ei swyddogaethau a'i gyllid i wella'r ffordd yr ymgysylltir â'r cyhoedd yn enwedig ymhlith grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml a/neu'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig.**

Wrth symud ymlaen rydym yn bwriadu canolbwyntio ar wreiddio 'diwylliant gwrando' a fydd yn cryfhau ein dull o ymgysylltu â'n defnyddwyr gwasanaeth a'n cymunedau trwy ddarparu ein [Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2022-2025 newydd](#). Bydd y Strategaeth hon nid yn unig yn ailddiffinio sut rydym yn ymgysylltu â barn ein dinasyddion ond bydd yn offeryn galluogi pwerus i'n cefnogi wrth ailgynllunio a chyd-gynhyrchu gwasanaethau, fel eu bod yn addas nawr ac at y dyfodol. Bydd y Rhaglen Cyfranogi yn cael ei rhoi ar waith yn 2022/23 i gyflawni ymrwymadau'r Strategaeth yn ymarferol ac ar gyflymder, gan gynnwys aelodau etholedig, staff a phartneriaid.

O ran ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen, mae datblygu'r dull 'gwrando' hwn yn mynd i fod yn hanfodol wrth adeiladu ar ein sylfeini ar gyfer sgwrs gymunedol ar newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn arwain at sgwrsiau yn y gymuned a fydd yn defnyddio ystod amrywiol o ddulliau ymgysylltu megis llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, cysylltwyr cymunedol a sgwrsiau wyneb yn wyneb. Byddwn yn canolbwyntio hefyd ar gymryd

camau i gynyddu cyfranogiad ymhlith 'lleisiau nad ydynt yn cael eu clywed' boed yn bobl ifanc neu'n unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig i helpu i lywio gwaith y Cyngor a chyfoethogi bywydau pobl.

Rhoi Gofal a Chymorth



Mae'r system gofal cymdeithasol o dan bwysau sylweddol oherwydd y galw cynyddol am ein gwasanaethau a'r angen i fynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig â'n capasiti. Mae'r cynnydd ar ddiwygio gofal cymdeithasol wedi dod i stop dro ar ôl tro dros y blynyddoedd ac mae'r pandemig wedi dod â ffocws i'r heriau sy'n wynebu gofal cymdeithasol ac mewn rhai achosion wedi gwaethygu'r materion yn ymwneud â galw a chapasiti.

Mae'r capasiti gofal cymdeithasol annigonol i ddiwallu'r twf mewn galw am wasanaethau gofal cymdeithasol i'w weld nid yn unig o ran maint y galw ond hefyd o ran difrifoldeb a chymhlethdod anghenion. Yn debyg i'r sefyllfa ledled Cymru, mae niferoedd cynyddol o Blant sy'n Derbyn Gofal yn y Fro gydag anghenion cymhleth sy'n gofyn am ofal a chymorth. Pan aseswyd bod angen rhoi plentyn mewn gofal, y Cyngor sy'n gyfrifol am roi'r plentyn hwnnw mewn lleoliad sy'n briodol i'w anghenion. Mae hyn yn heriol yn yr amgylchedd presennol lle mae'r galw am leoliadau yn fwy na'r nifer sydd ar gael, ac mae lleoliadau yn y sector annibynnol yn ddrud. Yn yr un modd, rydym yn gweld poblogaeth uwch sy'n heneiddio ym Mro Morgannwg. Mae ein dinasyddion yn byw'n hirach, bydd nifer cynyddol yn parhau gydag anghenion mwy cymhleth a fydd, yn eu tro, yn rhoi mwy o bwysau ar ein cyllidebau a'n gallu i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth.

Mae'r galw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol hefyd wedi'i yrru gan y pandemig, gan fod y rhai sy'n gwella o Covid yn aml yn gwneud hynny am wythnosau / misoedd lawer ac efallai y bydd angen rhyw fath o becyn ailalluogi neu ofal preswyl ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae'r pandemig hefyd wedi cyfrannu at oedi o ran gofal, sydd wedi ei gwneud hi'n anodd gwneud y gorau o gyfleoedd i atgyfeirio unigolion at wasanaethau gofal a chymorth ataliol yn gynharach. O ganlyniad, rydym yn gweld dinasyddion yn cyflwyno yn hwyrach ac angen lefelau ymyrraeth / cefnogaeth uwch. Mae amharodrwydd unigolion i geisio cymorth gofal iechyd priodol ar yr adeg fwyaf tyngedfennol, wedi arwain at gyflwyno anghenion mwy cymhleth yn ein cymunedau. Yn ogystal â hyn mae'r pandemig wedi creu teimladau o unigrwydd ac wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles unigolion. O ganlyniad i hyn rydym wedi gweld trefniadau gofalwyr anffurfiol yn chwalo, sy'n rhoi galw ychwanegol ar ein gwasanaeth i ddarparu gofal brys.

Un o'r prif ffactorau sy'n gyrru capasiti gwasanaeth yw'r pwysau ar y gweithlu yr ydym yn eu hwynebu. Yn unol â'r darlun cenedlaethol, mae Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg yn profi trosiant / prinder staff uwch ac anawsterau o ran recriwtio a chadw rhai aelodau o staff (yn arbennig o fewn gofal preswyl a gofal cartref). Mae prinder / absenoldebau staff mewn rolau gofal preswyl a gofal cartref wedi cael eu dwysáu ymhellach gan gyfraddau haint Covid-19 uchel ymhlith staff. Mae'r mater staffio hefyd yn fater llawer ehangach sydd hefyd yn effeithio ar ein darparwyr gofal a gomisiynwyd yn allanol, sydd yna'n effeithio ar gapasiti i gynnig pecynnau gofal. Mae'r materion capasiti staff sy'n cael eu profi gan ein darparwyr a gomisiynwyd yn allanol, yn amlygu bregusrwydd y farchnad gofal cymdeithasol lle nad oes digon o becynnau gofal ar gael i ateb y galw cynyddol. Mae hyn yn arbennig o amlwg lle mae diffyg argaeledd pecynnau gofal yn effeithio ar ryddhau cleifion o ysbytai'n ddiogel a llif cleifion mewn ysbytai.

Yng nghyd-destun y materion hyn, yr her wrth symud ymlaen yw **sut rydym yn cyflawni ein rolau statudol wrth ddiwallu'r anghenion mwyaf sylfaenol a diogelu ein trigolion mwy agored i niwed.** Y **prif fgythiad i'n Gwasanaethau Cymdeithasol o hyd yw cynnal darpariaeth a pherfformiad gwasanaethau tra'n rheoli'r galw cynyddol yn erbyn cefndir o adnoddau cyfyngedig.**

Gwnaed cynnydd da mewn perthynas â sefydlu Gweithgor cynllunio capasiti a'i rôl yw goruchwylio'r gwaith o ddatblygu mentrau recriwtio, cadw ac olyniaeth a sut y caiff dulliau o ran y gweithlu eu datblygu mewn ymateb i'r galw sy'n dod i'r amlwg. Rydym wedi gwella'r broses o recriwtio Gweithwyr Cymorth Ail-alluogi. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i ddatblygu cyfleoedd Kick Start yng Ngwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro ar gyfer ymgeiswyr sy'n gallu gyrru. Rydym wedi gweithio ar y cyd â'n partneriaid i ymgorffori'r Pwynt Mynediad Unigol i wasanaeth Materion Lles ehangach i sicrhau y gallwn integreiddio ein hadnoddau yn effeithiol i ddiwallu anghenion unigolion ar yr adeg gywir a chydâ'r tîm / gweithiwr proffesiynol cywir. Rydym wedi cytuno i sefydlu a recriwtio i swyddi Swyddogion Gofal Cymdeithasol newydd o fewn y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Bydd hyn yn ein galluogi i wella ein gallu i 'dyfu ein hunain' drwy feithrin gwytnwch a gwella cyfraddau cadw mewn meysydd allweddol. Rydym hefyd yn gweithio gydag asiantaethau gwaith cymdeithasol i archwilio'r opsiynau ar gyfer annog Gweithwyr Cymdeithasol i ddychwelyd i'r proffesiwn. O fewn y Gwasanaethau Oedolion, rydym wedi gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru mewn perthynas â nifer o faterion yn ymwneud â'n gweithlu o ran denu a recriwtio drwy eu rhaglen Gofalwn Cymru. Er mwyn gwella'r broses o recriwtio staff gofal cartref a chartrefi gofal rydym hefyd wedi datblygu rhaglen recriwtio llwybr carlam yn y Fro sydd wedi ein galluogi i recriwtio a hyfforddi dechreuwyr newydd ar y cyd, fel eu bod yn dod yn barod am waith yn gynt. Lanswyd y rhaglen llwybr carlam hon ym mis Ionawr 2022. Bydd y cynllun yn recriwtio a hyfforddi staff ar gyfer mwy nag 20 o ddarparwyr gofal sy'n gweithredu yn y Fro, yn ogystal ag ar gyfer rolau gyda Chyngor Bro Morgannwg. Y gobaith yw y bydd y rhaglen llwybr Carlam i Ofal yn allweddol wrth gefnogi'r broses recriwtio a chadw o ran rolau gofal preswyl a gofal cartref yn fewnol ac yn allanol i'r Cyngor. Felly, wrth symud ymlaen byddwn ni'n canolbwyntio ar **feithrin gwytnwch o fewn ein gweithlu ein hunain, gwella sefydlogrwydd yn y sector gofal cymdeithasol ehangach drwy barhau i weithio'n agos gyda'n darparwyr gofal a gomisiynwyd yn allanol i wella capasiti a datblygu atebion gofal cynaliadwy a fydd yn ein galluogi i ddiwallu anghenion gofal a chymorth ein dinasyddion yn well.**

Amlinellir trosolwg manylach o heriau a chyflawniadau allweddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf yn [Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol](#).

Gwella ein Seilwaith Economaidd

Mae isadeiledd yn chwarae rôl hollbwysig wrth gefnogi cymunedau lleol a'r economi leol. Gall ddatgloi potensial ardal, galluogi trigolion i gael mynediad at addysg, sgiliau, a chyfleoedd gwaith i gefnogi meysydd manwerthu a busnes lleol, a chynyddu hyfywedd safleoedd newydd ar gyfer cartrefi a busnesau. Mae Llywodraeth y DU wedi disodli rhywfaint o gyllid yr UE gyda **ffrydiau ariannu newydd fel y Gronfa Codi'r Gwastad (CCG) a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFFG), mae'r Gronfa Codi'r Gwastad yn gystadleuol o ran natur ac wedi'i gordansgrifio**. O ganlyniad, mae hyn wedi gofyn am gryn fewnbwn o adnoddau heb unrhyw sicrwydd o lwyddiant ar ddiwedd y broses. Mae gan yr awdurdodau yng Ngorllewin Cymru yn y Cymoedd staff mewn lle sydd ar hyn o bryd yn rheoli rhaglenni ariannu'r UE ac yn gweithio ar brosiectau. Nid dyma'r sefyllfa ym Mro Morgannwg. Hefyd, os ydym yn llwyddiannus, mae'r cyllid yn gofyn am **reolaeth ariannol a gwaith monitro prosiect sylweddol** i sicrhau y gellir cyflawni prosiectau o fewn amserlenni diffiniedig neu wynebu gosb ariannol. Daw arian cymeradwy gyda ffi weinyddu a bydd angen i'r Fro recriwtio staff ychwanegol tra bod awdurdodau eraill yn gallu symud staff gweinyddol presennol yr UE i'r rolau newydd hyn. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gwybod a ydym wedi llwyddo yn y pen draw i sicrhau bron i £19.9m i drawsnewid glannau Dociau'r Barri tan Hydref 2022 (nodwyd y gallai hyn fod yn natganiad cyllideb Hydref y Llywodraeth ond nid oes sicrwydd o hyn). Bydd hyn yn golygu datblygu marina newydd a giatiau loc fel canolbwynt ein cynlluniau, a fydd yn gatalydd ar gyfer cam nesaf adfywio'r glannau. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys gofod busnes ochr yn ochr â'r marina yn cynnwys busnesau lletygarwch a pharc llinellol 2 erw. Hefyd, mae cynlluniau ar gyfer adeiladu cyfleuster chwaraeon dŵr newydd, gwyrdd, pwrpasol ar Lannau'r Barri. Wedi'i ddylunio i hybu cyfleoedd hamdden a defnydd cymunedol ehangach o'r ardal, byddai'r cyfleuster yn gartref newydd i'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Dŵr Môr ac nid yn unig o fudd i glybiau a sefydliadau lleol ond hefyd ysgolion, grwpiau ieuenedig, a'r cyhoedd drwy roi mynediad iddynt i gyfleusterau dosbarth cyntaf i fwynhau'r dŵr. Yn y gofod newydd

byddai ystafelloedd cyfarfod, manau cymunedol ac ystafelloedd dosbarth, yn ogystal â lle i storio offer. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno cynllun buddsoddi drafft (drwy RCTBC) i Lywodraeth y DU i gael mynediad i dros £14m o gyllid a ddarperir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin a bydd y cynllun hwn nawr yn cael ei ddatblygu ymhellach i sicrhau bod y Cyngor a'i gymunedau a busnesau yn elwa o'r cymorth ariannol hwn.

Mae'r Cyngor hefyd yn wynebu heriau adfywio economaidd ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyrchu buddsoddiad sylweddol wrth gysylltu cyflogaeth â lle mae pobl yn byw, mae rhaglenni adfywio hefyd wedi dioddef yr un pwysau chwyddiant ar nwyddau a gwasanaethau. Wrth wella ein seilwaith economaidd, mae angen ystyried newid yn yr hinsawdd gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatgarboneiddio'r economi. **Ar adeg pan fo Banc Lloegr yn rhagweld dirwasgiad, bydd denu mewnfuddsoddiad gan fusnesau yn dod yn fwy heriol, a fydd yn cael sgil-ffaith ar ein gallu i wella ein seilwaith lleol ymhellach.** Un o'r ffactorau allweddol a gymhlethwyd gan Brexit a Covid-19 oedd argaeledd contractwyr a llafur yn y farchnad i allu ymgymryd â phrosiectau adfywio allweddol ac mae cost gynyddol deunyddiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant yn debygol o wneud costau darparu prosiectau adfywio allweddol yn fwy costus ac o bosibl yn anhyfiyw os yw argaeledd ceisiadau cyllid llwyddiannus yn lleihau. **Hefyd, mae heriau disgwylid wrth gydbwysu'r angen i ddatblygu seilwaith 'cyfannol' sydd nid yn unig yn gwella datblygiad economaidd ond yn gwella cysylltiadau trafnidiaeth o fewn ein cymunedau, yn adfywio ardaloedd o amddifadedd, yn mynd i'r afael â bylchau sgiliau ac yn gwella buddsoddiad diwylliannol.**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi darparu rhaglen fuddsoddi yng nghanol ein trefi i gyd, gan gynnwys cynlluniau plannu, trwyddedau caffi newydd, dulliau cyfrif nifer ymwelwyr a digwyddiadau rhwydweithio busnes wedi'u trefnu. Fe wnaethon ni hefyd sicrhau cyllid i gefnogi twf masnachol o fewn ffin yr Ardal Fenter gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu safle coleg newydd yn y maes awyr. Rydyn ni wedi cyfnewid contractau â Choleg Caerdydd a'r Fro ar ddatblygu coleg yng Nglannau'r Barri, ac yn datblygu gwaith dylunio ar y cynllun i drawsnewid y BSC2 yn y Barri yn swyddfa a chyfleuster hamdden. Er gwaethaf yr amgylchedd economaidd heriol, fe wnaethom ymrwymo £18.74m i gynlluniau ar draws y Fro a fydd yn cefnogi gwelliannau yn ein seilwaith economaidd i'r tymor hir. Hefyd, yn ystod y flwyddyn, gwnaethom wario bron i £5.6 miliwn ar drafnidiaeth gyhoeddus, rhwydweithiau cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd, manau agored cyhoeddus a gwelliannau celf cyhoeddus. Darparwyd 189 o unedau tai fforddiadwy, gyda £469,874 o gyfraniadau tai fforddiadwy A106 ychwanegol wedi'u sicrhau ar gyfer prosiectau newydd. Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau yn Hayeswood Road, y Barri (53 uned) a St Cyres Road, Penarth (14 uned) fel rhan o raglen adeiladu tai'r Cyngor, a bydd contractau yn cael eu cyfnewid am 32 uned ychwanegol o dai yn Coldbrook Road East, a Chlinig Colcot, y ddau yn y Barri.

Rydyn ni hefyd **angen parhau i fuddsoddi yn ein hysgolion a'n tai a sicrhau bod gennym y seilwaith cywir yn y Fro i gefnogi lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.** Disgwylir i'r heriau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn ysgolion a'n rhaglen fuddsoddi Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt) gynyddu dros amser wrth i ni wynebu materion yn y gadwyn gyflenwi sy'n cynyddu costau deunyddiau a fydd yn parhau i gael effaith ar gyflawni prosiectau. Heb gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r newidiadau hyn i'r farchnad, mae'n bosib na fydd unrhyw gynlluniau newydd yn ymarferol o fewn y cyllidebau cyfredol.



Mae pandemig Covid-19 wedi cyflymu digidoli mewn llywodraeth leol wrth i gynghorau ymateb i'r her o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o bell. **Nawr disgwylir i fwy o wasanaethau digidol gael eu darparu mewn ffyrdd arloesol i ddiwallu anghenion dinasyddion. Bydd cynnal y lefelau gofynnol o fuddsoddi mewn seilwaith technoleg ddigidol i gynnal a gwella'r ffyrdd newydd hyn o weithio ar gyfer y tymor hir yn unol â disgwyliadau cynyddol, yn heriol o fewn yr adnoddau presennol. Ochr yn ochr â hyn, mae angen mynd i'r afael â bylchau sgiliau a chapasiti staff sy'n cyfyngu ar ein galluedd o ran trawsnewid digidol.**

Y tu hwnt i'r pwysau uniongyrchol o ran galw cynyddol am wasanaethau ac adnoddau cyfyngedig, rydym hefyd yn cydnabod bod cyfle enfawr i ddarparu gwasanaethau'n well, yn gyflymach a gyda gwell canlyniadau tra bod staff hefyd yn gallu bod mewn sefyllfa well i weithio gyda'i gilydd i rymuso ein cymunedau. I'r perwyl hwn, rydym wedi gweithredu'n uchelgeisiol wrth fuddsoddi yn y gwaith o ddigidoli ein gwasanaethau ac uwchsgilio staff, sy'n helpu i wella lles dinasyddion drwy wneud ein gwasanaethau'n fwy hygyrch, gan gefnogi byw'n annibynnol, lleihau unigrwydd cymdeithasol, cefnogi addysg a sgiliau a'r economi leol. Yn wyneb adnoddau cyfyngedig, ffocws allweddol wrth symud ymlaen fydd gweithio ar y cyd i nodi a gweithredu atebion arloesol i ddarparu trawsnewid digidol parhaus wrth fynd i'r afael ag allgáu digidol wrth i ddarpariaeth gwasanaeth ddod yn "ddewis digidol".

Trawsnewid y Ffordd rydyn ni'n Gweithio

Creodd y Pandemig gyfle unigryw i nid yn unig ddeall y gwasanaethau yr oedd pobl yn eu gwerthfawrogi fwyaf, ond roedd hefyd yn ein galluogi i edrych ar sut i weithredu ein gwasanaethau mewn ffyrdd newydd. **Mewn ymateb i Covid-19, fe lwyddon ni i addasu i ffyrdd newydd o weithio a mabwysiadu modelau darparu gwasanaethau newydd, fodd bynnag, yr her wrth symud ymlaen yw a yw'r modelau gweithredu newydd hyn yn gynaliadwy ar gyfer y tymor hir.**

Nawr, ynghyd â galw cynyddol am ein gwasanaethau, mae'r angen i helpu pobl ag anghenion iechyd mwy cymhleth, y bwlch cynyddol rhwng tlodi a ffyniant, newid yn yr hinsawdd a datblygiadau digidol, yn gofyn am dull trawsnewidiol newydd a fydd yn galluogi'r Cyngor i fod yn wydn a darparu mwy gyda llai.

Wrth drawsnewid y ffordd rydyn ni'n gweithio **yr heriau allweddol fydd sut rydyn ni'n mynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd (gan gynnwys datgarboneiddio), sut rydym yn cael pobl allan o dlodi, sut rydym yn adeiladu a grymuso cymunedau ac yn ymgysylltu â hwy**, a sut rydym yn manteisio i'r eithaf ar botensial partneriaethau i effeithio ar newid a gwella lles ein cymunedau. Bydd hyn yn gofyn am fwy o arloesi yn y ffordd rydyn yn gweithio, i gofleidio modelau newydd sy'n ein galluogi i weithredu gwasanaethau mewn ffordd ystwyth. Bydd angen i ni hefyd ddefnyddio ein hasedau yn fwy effeithlon, gwthio ein hagenda digidol, datblygu a chefnogi ein gweithlu a sicrhau cyfleoedd a buddsoddiadau masnachol. Ni fydd hyn yn hawdd a bydd y dulliau y byddwn yn eu defnyddio yn niferus ac amrywiol. Does dim un 'ffordd iawn' o wneud pethau wrth i ni nesáu at diriogaeth newydd ac arwain y ffordd ar gyfer newid.

Yn unol â'n dull gweithredu, trwy ein Cronfa Cymunedau Cryf, fe wnaethom gefnogi'n ariannol 26 o grwpiau a sefydliadau a arweinir gan y gymuned. Mae 22 o wardiau wedi derbyn £1.127m o gyllid yn ystod y flwyddyn sy'n cefnogi mentrau cymunedol cynaliadwy ac yn sicrhau bod trigolion yn elwa. Fe wnaethom gwblhau cam cyntaf y broses o drosglwyddo safleoedd chwaraeon awyr agored yn llwyddiannus, gyda phob clwb bowllo bellach yn gweithredu'n annibynnol ar y Cyngor. Fe wnaethon ni hefyd ddatblygu cronfa ddata ymgysylltu â'r cyhoedd a chalendr treigl o weithgareddau a mabwysiadu porth 'Cyfranogiad yn y Fro' ar gyfer e-ddeisebau a gweithgareddau ymgysylltu.

Yn 2020, lansiodd y Cyngor ei Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol cyntaf, The Big Fresh Catering Company, a gynlluniwyd i wella'r ddarpariaeth o brydau ysgol, a chynhyrchu ffrydiau newydd o refeniw trwy fasnach gyhoeddus. Mae'r model hwn yn caniatáu i arian dros ben gael ei ail-fuddsoddi mewn ysgolion lleol ac yn golygu nad oes angen cymorthdaliadau gan yr Awdurdod Lleol. Eleni, mae The Big Fresh wedi parhau i dyfu, gan weithio mewn partneriaeth â Phafiliwn Pier Penarth i ailagor y lleoliad i'r cyhoedd a sicrhau ei hyfywedd ariannol. Mae'r fenter yn parhau i arwain at nifer o fanteision i addysg a chymunedau lleol, gan gynnwys cymorth ariannol i ysgolion o'i gwaged, cyllid grant ar gyfer nifer o raglenni gan gynnwys ymestyn darpariaeth

y diwrnod ysgol, cefnogi canolfannau lles, podiau bwyd, amgylcheddau dysgu awyr agored yn ogystal â grwpiau cymunedol fel clybiau pêl-droed a grwpiau celfyddydol lleol. Ni fyddai'r buddsoddiadau hyn wedi bod yn bosibl heb y model gweithredu arloesol hwn, a'r gwaith partneriaeth rhwng The Big Fresh Catering Company, y Cyngor, arweinwyr ysgol a'n cymunedau lleol. Mae'r model hwn a'r gwersi a ddysgwyd yn helpu i lywio modelau arloesol ar gyfer y dyfodol mewn nifer o wasanaethau ar draws y Cyngor.

Wrth adlewyrchu ar weithgareddau ail-lunio blaenorol a gwersi a ddysgwyd o'r pandemig, rydym wedi **ailffocysu ein Strategaeth Ail-lunio** a nodi tri maes cyfle fel gweithredu ar faterion cymunedol mawr, newid y ffordd rydyn ni'n gweithio a: cyfleoedd i ddefnyddio ein hadnoddau'n wahanol. Bydd pwyslais ein rhaglen drawsnewidiol yn y dyfodol yn cael ei ymestyn i ymgorffori ystyriaeth o rôl arweinyddiaeth gymunedol y Cyngor ac arloesedd o ran y ffyrdd y mae'r Cyngor yn gweithredu, yn ogystal â'r ffocws ynghylch defnyddio adnoddau.



Rhagolwg Ariannol

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn wynebu **nifer o heriau ariannol sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, cost ariannol sylweddol y pandemig, y rhyfel parhaus yn Wcráin a'r sioc economaidd yn sgil y costau byw cynyddol**. Mae camau sylweddol eisoes wedi'u cymryd i reoli'n effeithiol a lleihau ein costau, heb i hynny effeithio ar ein safonau gwasanaeth cwsmeriaid. Mae'r Rhaglen Ail-lunio wedi bod yn allweddol wrth nodi a sicrhau effeithlonrwydd ac arbedion gwasanaethau drwy ail-lunio ein gwasanaethau sydd wedi edrych ar daliadau ail-ddylunio gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau, darparu gwasanaethau mewn partneriaeth yn lleol gyda chyrrff cyhoeddus eraill a/neu dros ôl troed rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'r gost ar gyfer darparu gwasanaethau yn dal i godi ac yn achosi mwy o bwysau nag yn y blynyddoedd blaenorol. Er bod yr arian a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn uwch na'r disgwyl nid yw wedi bod yn ddigon i fynd i'r afael â thoriadau cyllidebol mewn blynyddoedd blaenorol ac er i'r Cyngor a busnesau lleol elwa o gyllid adfer ychwanegol yn gysylltiedig â Covid-19, nid yw wedi bod yn ddigon i ymdopi â'r effaith ariannol sy'n gysylltiedig â'n hymateb a'n hadferiad yn dilyn y pandemig. **Rhagwelir hefyd y bydd pwysau chwyddiant fel cost gynyddol bwyd, deunyddiau a phrisiau ynni ochr yn ochr â phwysau cost sy'n gysylltiedig â dod yn gyflogwr 'cyflog byw' yn effeithio ar ein cyllidebau yn yr un modd â phoblogaeth sy'n heneiddio a nifer cynyddol o blant a phobl ifanc yn cyflwyno anghenion dysgu cymdeithasol, economaidd, meddyliol a chymhleth**. Mae ein rhagamcanion a amlinellir yn ein [2 Strategaeth Gyllideb 2023/24](#) yn dangos, hyd yn oed gyda chynnydd yng nghyllid Llywodraeth Cymru, y bydd diffyg o hyd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud gostyngiadau mewn gwariant gan effeithio felly ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu ar hyn o bryd.

Mae heriau'r Cyngor sy'n gysylltiedig â chyllid cyfyngedig a'r galw cynyddol am wasanaethau critigol yn amlwg. Mae ein gallu i gymryd golwg tymor hwy wrth fynd i'r afael â materion systemig a nodwyd yn parhau i gael eu llesteirio gan y ffordd tymor byr yr ydym yn cael ein hariannu. Mae angen i ni barhau i lobïo Llywodraeth Cymru i symud i ffwrdd o'r defnydd achlysurol o wahanol ffyrddau cyllido i'n galluogi i wneud buddsoddiadau strategol yn seiliedig ar ddarlun clir o sut y bydd gwasanaethau critigol yn cael eu hariannu yn y dyfodol. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd ag ethos Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r cynnydd arfaethedig mewn costau ar gyfer 2022/23 wedi tyfu'n sylweddol ers y £8.5m a adroddwyd ym mis Mawrth 2022 ac mae hyn yn cael effaith fawr ar ein gwaith cynllunio cyllidebol; bydd yn her nodi arbedion er mwyn cwrdd â'r bwlch ariannu a'u cyflawni. **Yr her fydd gwneud gwaith cynllunio mwy hirdymor ar gyfer gwasanaethau yn hytrach nag ymateb i bwysau brys yn unig**. Bydd setliad aml-flwyddyn gan Lywodraeth Cymru yn galluogi cynllunio ariannol effeithiol i gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau ar gyfer y tymor hir. Gyda chymorth cynllunio ariannol hirdymor, ein huchelgais dros y blynyddoedd nesaf yw manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd trawsnewidiol a ddaw yn sgîl ein hymateb a'n hadferiad o bandemig Covid-19 a sicrhau ein bod yn parhau i nodi cyfleoedd cost-effeithiol newydd ar gyfer darparu gwasanaethau.

4.0 Ein Hadroddiad Hunanasesu

Sut mae'r cyfan yn dod at ei gilydd


Mae [Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol](#) yn nodi'r canlyniadau y mae'r Cyngor am eu cyflawni sy'n adlewyrchu blaenoriaethau gwleidyddol y weinyddiaeth, ein dyheadau a'n hymrwymadau cyffredin gyda phartneriaid gwasanaeth cyhoeddus (e.e. Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynllun Ardal Caerdydd a'r Fro) a dinasyddion y Fro ac yn darparu fframwaith ar gyfer gwella lles ym Mro Morgannwg yn ystod y tymor canolig.

Ein hamcanion lles ar gyfer 2021/22 yw:

- Gweithio gyda a thros ein cymunedau.
- Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy.
- Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned.
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd.

Mae ein [Cynllun Cyflawni Blynyddol](#) a gyhoeddir bob Gwanwyn, yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn ystod y flwyddyn i gyflawni amcanion lles ein Cynllun Corfforaethol a chyflawni ein gweledigaeth o greu **Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair**.

Sut mae'r cyfan yn dod at ei gilydd



Trosir y camau hyn yn weithredoedd drwy broses gynllunio integredig a manylir arnynt mewn Cynlluniau Gwasanaeth a Thîm ac arfarniadau staff (#amdanaffi) ar draws y Cyngor ac maent yn sail i'n fframwaith corfforaethol blynyddol o fesurau perfformiad a thargedau gwella gwasanaethau, timau ac unigolion. Adlewyrchir ar y cynnydd yn erbyn ein hymrwymadau CCB a'n hamcanion lles mewn adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n destun her fewnol trwy'r Uwch Dîm Arwain ac aelodau etholedig trwy Bwyllgorau Craffu, Pwyllgor a Chabinet Llywodraethu ac Archwilio. Mae monitro cynnydd yn erbyn y camau hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r hyn a gyflawnwyd a lle mae angen mwy o waith.

Mae'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol yn rhoi crynodeb diwedd blwyddyn o'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyd-fynd â'n pedwar Amcan Lles.

Sut ydyn ni wedi asesu ein perfformiad?

Ein trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad blynyddol presennol yw ein prif fodd o gyflawni ein dyletswyddau perfformiad newydd. Mae ein dull o ran hunanasesu wedi'i integreiddio o fewn y trefniadau hyn sy'n darparu cyfleoedd drwy gydol y flwyddyn ar gyfer herio perfformiad mewnol ac allanol gan ein galluogi i adolygu ar unrhyw adeg, pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein hamcanion lles. Ochr yn ochr â'r trefniadau hyn, rydym hefyd yn datblygu ein mewnwelediad mewnol sy'n dwyn ynghyd wybodaeth ar berfformiad, data ac ymgysylltu â'r cyhoedd drwy gydol y flwyddyn ochr yn ochr â mewnwelediadau cysylltiedig â llywodraethu o raglenni gwaith archwilio mewnol ac allanol sydd wedi helpu i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer y casgliadau hunanasesu blynyddol.

Yn unol â'r dull hwn, ystyriwyd gofynion perfformiad ac adrodd statudol sy'n bodoli eisoes mewn gwasanaethau penodol gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol (Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), Dysgu a Sgiliau (gofynion hunan werthuso Estyn) ac Adfywio a Chynllunio (Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol) ochr yn ochr â threfniadau perfformiad corfforaethol / hunanasesu, lle mae ffocws ar sicrhau bod y ffynonellau mewnwelediad a thystiolaeth o'r prosesau hunanasesu eraill hyn yn cael eu

defnyddio i wasanaethu sawl diben, hynny yw, i lywio gwelliant gwasanaeth penodol (a gofynion adrodd statudol) a'r ddealltwriaeth lefel strategol ehangach o sut mae'r Cyngor yn gweithredu yn ei gyfanrwydd, wrth ddefnyddio ei adnoddau'n effeithiol a bodloni ei amcanion lles (fel rhan o hunanasesiad ehangach y Cyngor). Mae alinio ein dull hunanasesu fel hyn yn dangos dull integredig a bydd yn ein galluogi i fodloni gofynion rheoleiddio a pherfformiad ac adrodd statudol yn effeithiol gan ddefnyddio'r un ffynonellau mewnwelediad a thystiolaeth.

Mae amrywiaeth eang o ffynonellau gwybodaeth (gan gynnwys y rhai a restrir isod) wedi helpu i lywio ein dyfarniadau hunanasesu a meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol:

- [Perfformiad chwarterol / blynyddol](#) ac [adolygu ac adrodd risg](#) sy'n gysylltiedig â'r camau allweddol (gweithredoedd) a metrigau perfformiad sy'n cyd-fynd â'n hymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol a'n hamcanion lles ar gyfer 2021/22. Mae'r adborth gan Bwyllgorau Craffu, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn llywio gwelliant perfformiad;
- Canfyddiadau o'n [Rhaglen Waith Archwilio Mewnol a Risg yn ein Hadroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol](#);
- [Adroddiadau arolygon, Cyngor ac argymhellion](#) gan ein Rheoleiddwyr allanol drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys y broses Archwilio a Sicrwydd Risg, [Crynodeb o'r Archwiliad Blynyddol](#) a symud ymlaen gyda'n [Traciwr 'insight' rheoleiddiol, sy'n adolygu a monitro cynnydd wrth weithredu ein hargymhellion rheoleiddio](#);
- Canfyddiadau o [Hunanasesiadau Blynyddol ar Lefel Cyfarwyddiaeth](#) ar ein defnydd o adnoddau (pobl, cyllid, asedau, perfformiad a rheoli risg, ymgysylltu a mewnwelediad) i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol a chyfrannu at amcanion lles ein Cynllun Corfforaethol. Mae'r rhain wedi bod yn destun proses her 'cyfaill beirniadol' cyfoedion mewnol sy'n cynnwys deiliaid portffolio'r Weithrediaeth / Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau Craffu perthnasol, y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfoedion;
- Trosolwg o'r [canfyddiadau ymgysylltu](#), a'r [cwynion a chanmoliaethau](#) ar draws holl wasanaethau'r Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf;
- [Canfyddiadau Ymgysylltu â Staff](#);
- [Ymgysylltu â staff, a dinasyddion y Fro](#) ar ein canfyddiadau hunanasesu a pherthnasedd ein hamcanion lles;
- Ymgysylltu a her o ran ein canfyddiadau hunanasesu drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, aelodau etholedig (drwy Bwyllgorau Craffu a'r Cabinet) ac Undebau Llafur.
- Monitro ariannol gan gynnwys y [Datganiad Cyfrifon](#) ac asesiadau o [gynaliadwyedd ariannol sefydliadol gan Archwilio Cymru](#) a chydymffurfio â [Chod Rheoli Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg \(CIPFA\)](#);
- Mewnwelediadau allweddol o'r [Datganiad Llywodraethu Blynyddol](#) a [Barn Archwilio Mewnol](#) ar amgylchedd rheoli'r Cyngor mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol.
- Ein [Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blynyddol](#)

Mae dwyn ynghyd y mewnwelediadau hyn wedi galluogi gwiriad synnwyr sefydliadol cynhwysfawr o'n cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf wrth gyflawni'r ymrwymadau CCB sy'n cyd-fynd â'n hamcanion lles. Mae hefyd wedi ein galluogi i nodi a dathlu ein prif gyflawniadau a llwyddiannau tra'n nodi hefyd ein prif heriau yn ogystal â'r meysydd hynny lle nad yw'r perfformiad fel y disgwyliar ac o ganlyniad mae angen sylw pellach.

Adolygiad o'n hamcanion lles

Bob blwyddyn, mae dinasyddion y Fro, staff y Cyngor, aelodau etholedig a phartneriaid allweddol eraill yn helpu i lunio'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein hamcanion lles drwy ein hymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol. Drwy'r broses hon gofynnir iddynt gadarnhau perthnasedd ein hamcanion lles. Hefyd, yn flynyddol, drwy ein trefniadau cynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad integredig, rydym yn parhau i

adolygu perthnasedd ein hamcanion lles, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau, y cyflawniadau a'r heriau a fwriedir. Drwy'r gwaith hwn yn 2021/22, rydym yn sicr bod ein hamcanion lles yn briodol a'u bod hefyd yn parhau i fod yn berthnasol i'r blaenoriaethau a amlinellir yng Nghynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) 2018-2023 ac y bydd yn ategu gwaith y BGC wrth symud ymlaen.

Eleni, yn unol â'n dyletswyddau perfformiad newydd, rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys dinasyddion y Fro a staff y Cyngor yn ystod yr Haf (Awst - Medi 2022) a gofyn iddynt beth maen nhw'n ei feddwl am ein cyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf a'r meysydd y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt yn y flwyddyn sydd i ddod. Ar ôl ystyried ein cynnydd gyda'r Cynllun Cyflawni Blynyddol, gwnaethom hefyd ofyn i bobl a yw ein pedwar Amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol yn parhau i fod yn berthnasol.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori (5 Awst – 18 Medi 2022) cynhaliwyd rhaglen ymgysylltu eang a oedd yn cynnwys mynychu nifer o ddigwyddiadau yn ystod yr haf, hyrwyddo arolwg ar-lein, a chyhoeddi animeiddiadau a phostiadau amrywiol ar y cyfryngau cymdeithasol. Derbyniodd yr ymgynghoriad 125 o ymatebion unigol i'r arolwg, ac er bod tua 2.5k o bobl wedi edrych ar yr animeiddiadau, cawsom 30 o sylwadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol ar draws y gwahanol animeiddiadau. Cafwyd 20 ymateb arall gan staff y Cyngor. Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd i'r arolwg yn amrywio o'r rhai a atebodd bob cwestiwn i'r rhai a oedd yn canolbwyntio ar ymateb i un neu ddau o gwestiynau yn unig. Roedd nifer sylweddol o sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â chwynion / ceisiadau gwasanaeth cyffredinol yn hytrach nag adborth penodol i'r ymgynghoriad ar yr arolwg. Roedd sylwadau cysylltiedig yn gyson ag ymatebion o'r arolwg cyhoeddus ar-lein.

Ar y cyfan, cafwyd ymateb isel i'r ymgynghoriad. Yn ogystal, rhaid nodi, fel ymgynghoriad cyhoeddus, bod yr ymatebwyr yn hunan-ddethol sy'n golygu nad yw'r ymatebion yn cael eu tynnu o sampl gynrychioliadol o'r boblogaeth ac o ganlyniad gallant gynnwys rhywfaint o ymgyrchu, hynny yw, ymatebwyr yn defnyddio'r arolwg i fynegi anfodlonrwydd am fater neu benderfyniad penodol. Er gwaethaf y gyfradd ymateb isel, mae crynodeb o farn yr ymatebwyr (a amlinellir isod) yn rhoi cipolwg i ni ar safbwyntiau rhanddeiliaid ac yn rhoi mewnwlediadau defnyddiol i ni a fydd yn helpu i lunio blaenoriaethau Cynllun Cyflawni Blynyddol y flwyddyn nesaf.




Yr hyn sy'n amlwg hefyd o'r dadansoddiad o'r arolwg yw bod yna ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cyffredinol o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud a bod angen i ni wneud mwy i gyfleu gwybodaeth mewn ffordd sy'n haws i bobl ei deall fel eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu. Mae'r materion hyn yn cael eu symud ymlaen trwy ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd newydd.

Ar y cyfan, roedd 81% (o'r 123 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno bod ein hamcanion lles yn parhau i fod yn berthnasol. Yn yr un modd, roedd 84% (o'r 20 aelod o staff a ymatebodd) hefyd yn cytuno'n gyffredinol gyda'n hamcanion lles. Roedd adborth perthnasol drwy'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn gyson â'r casgliad bod ein pedwar Amcan Lles yn parhau i fod yn berthnasol.

Ar draws themâu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol allweddol, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno (84%) gyda'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Roedd 92% (o'r 20 aelod o staff a ymatebodd) hefyd yn cytuno â'n blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod.































5.0 Ein perfformiad yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22




Y statws perfformiad Coch Melyn Gwyrdd (CMG) cyffredinol ar gyfer y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 yw GWYRDD




Cyflwynir isod **gynodeb o'n perfformiad** mewn perthynas â'n pedwar Amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol a pherfformiad cyffredinol Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22. Mae'r Trywydd yn rhoi syniad o gyfeiriad y perfformiad o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Er enghraifft, lle mae ein statws perfformiad (CMG) wedi gwella, nodir hynny gan , lle mae ein statws perfformiad wedi aros yr un fath o'i gymharu â'r chwarter blaenorol fe'i dangosir gan  a lle mae ein statws perfformiad wedi gostwng, fe'i cynrychiolir gyda .

Ar ddiwedd 2021/22, statws perfformiad cyffredinol (CMG) y Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles ein Cynllun Corfforaethol yw **GWYRDD**. Mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed mewn perthynas â chyflawni ein hymrwymiaidau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod gyda 87% o weithgareddau a thargedau arfaethedig wedi'u cyflawni. Hefyd, priodolwyd statws perfformiad **GWYRDD** i bob un o bedwar Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn i gyfleu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Mae'r perfformiad hwn yn gadarnhaol o ystyried yr heriau parhaus sylweddol sy'n gysylltiedig â'r pandemig, ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, y rhyfel parhaus yn Wcráin a'r sioc economaidd o'r costau byw cynyddol.

Ar y cyfan, mae'r trywydd wedi aros yn sefydlog ar gyfer holl weithredoedd y Cynllun Cyflawni Blynyddol sy'n cyd-fynd â'n pedwar Amcan Lles o'i gymharu â'r chwarter blaenorol (chwarter 3). Er, ar gyfer mesurau perfformiad, bu gwelliant yn y mesurau sy'n gysylltiedig ag Amcan Lles 1 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol.

CCB (Camau Gweithredu)	CMG	Trywydd	CCB (Mesuriadau Perfformiad)	CMG	Trywydd	CCB (Camau Gweithredu + Mesurau wedi'u cyfuno)	CMG	Trywydd
Amcan 1			Amcan 1			Amcan 1		
Amcan 2			Amcan 2			Amcan 2		
Amcan 3			Amcan 3			Amcan 3		
Amcan 4			Amcan 4			Amcan 4		
Holl gamau gweithredu'r CCB			Holl Ddangosyddion Perfformiad y CCB			CCB cyffredinol		

Holl Gamau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth a'r Holl Fesurau Perfformiad	STATWS PERFFORMIAD						Statws CMG Cyffredinol	
	 GWYRDD		 MELYN		 COCH			
Camau Gweithredu Mesurau	Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu a Mesurau	
321	67	287(89%)	48 (72%)	0	5 (7%)	34(11%)	14(21%)	GWYRDD

Holl Gamau Gweithredu'r Cynllun Gwasanaeth a'r Holl Fesurau Perfformiad	STATWS PERFFORMIAD			Statws CMG Cyffredinol ar gyfer pob Amcan Lles
	 GWYRDD	 MELYN	 COCH	
Cyfanswm	Camau Gweithredu a Mesurau	Camau Gweithredu a Mesurau	Camau Gweithredu a Mesurau	Camau Gweithredu a Mesurau
388	335 (87%)	5 (1%)	48 (12%)	GWYRDD




CAMAU WEDI LLITHRO	
Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19	10/34 (29%)
Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID	24/34 (71%)

MESURAU PERFFORMIAD WEDI LLITHRO	
Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19	9/14 (64%)
Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID	5/14 (36%)

5.1 Perfformiad ein Cynllun Cyflawni Blynyddol yn ôl Amcanion Lles

AMCAN LLES 1: Gweithio gyda, a thros ein cymunedau

Ein statws CMG cyffredinol ar gyfer 'Gweithio gyda, a thros ein cymunedau' yw **GWYRDD**




Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag Amcan Lles 1		STATWS PERFFORMIAD						Statws CMG Cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 1
		 GWYRDD		 MELYN		 COCH		
Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu a Mesurau
134	15	118(88%)	8 (53%)	0	1 (7%)	16(12%)	6 (40%)	GWYRDD

CAMAU WEDI LLITHRO	
Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19	5/16 (31%)
Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID	11/16 (69%)

MESURAU PERFFORMIAD WEDI LLITHRO	
Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19	3/6 (50%)
Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID	3/6 (50%)

AMCAN LLES 2: Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy

Ein statws CMG cyffredinol ar gyfer 'Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy' yw **GWYRDD**

Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cyd-fynd ag Amcan Lles 2		STATWS PERFFORMIAD						Statws CMG cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 2
		 GWYRDD		 MELYN		 COCH		
Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu a Mesurau
37	18	35(95%)	17 (94%)	0	0 (0%)	2(5%)	1 (6%)	GWYRDD

CAMAU WEDI LLITHRO	
Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19	2/2 (100%)
Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID	0/2 (0%)

MESURAU PERFFORMIAD WEDI LLITHRO	
Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19	1/1 (100%)
Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID	0/1 (0%)

AMCAN LLES 3: Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned

Ein statws CMG cyffredinol ar gyfer 'Cefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned' yw **GWYRDD**

Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cydfynd ag Amcan Lles 3		STATWS PERFFORMIAD						Statws CMG cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 3
		GWYRDD		MELYN		COCH		
Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu Mesurau
100	22	90(90%)	14(64%)	0	4(18%)	10(10%)	4 (18%)	GWYRDD

CAMAU WEDI LLITHRO	
Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19	2/10 (20%)
Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID	8/10 (80%)

MESURAU PERFFORMIAD WEDI LLITHRO	
Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19	4/4 (100%)
Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID	0/4 (0%)

AMCAN LLES 4: Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Ein statws CMG cyffredinol ar gyfer 'Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd' yw **GWYRDD**

Camau Gweithredu a Mesurau sy'n cydfynd ag Amcan Lles 4		STATWS PERFFORMIAD						Statws CMG cyffredinol ar gyfer Amcan Lles 4
		GWYRDD		MELYN		COCH		
Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu/ Mesurau		Camau Gweithredu Mesurau
50	12	44(88%)	9(75%)	0	0	6(12%)	3(25%)	GWYRDD

CAMAU WEDI LLITHRO	
Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19	1/6 (16%)
Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID	5/6 (82%)


MESURAU PERFFORMIAD WEDI LLITHRO	
Rhesymau sy'n gysylltiedig â COVID-19	1/3 (33%)
Rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â COVID	2/3 (66%)

5.2 Ein Blwyddyn mewn Rhifau 2021/22

Eleni, nid yw data meincnodi cenedlaethol wedi bod ar gael i'n galluogi i gymharu ein perfformiad ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau. Rydym yn gweithio gyda Data Cymru ar hyn o bryd i ddatblygu set ddata craidd hunanasesu cenedlaethol a fydd yn helpu i lywio proses hunanasesu flynyddol y flwyddyn nesaf. Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i asesu ein perfformiad drwy ddefnyddio data tueddiadau lleol a mewnwelediadau data gwasanaeth eraill lle mae ar gael. Mae cynnydd yn erbyn ein Fframwaith Mesurau Perfformiad Corfforaethol wedi'i adrodd i Bwyllgorau Craffu a Chabinet y Cyngor bob chwarter, gan gynnwys [adroddiad diwedd y flwyddyn \(Chwarter 4\) ym mis Gorffennaf 2022](#).

Isod ceir detholiad o ddangosyddion perfformiad ar draws ein pedwar Amcan Lles y mae data ar gael ar ei gyfer ac sy'n cymharu ein perfformiad presennol â pherfformiad y llynedd (2020/21). Mae'r pandemig wedi effeithio ar berfformiad mewn rhai meysydd, yn enwedig lle bu angen ailflaenoriaethu adnoddau mewn ymateb i heriau cysylltiedig.

AMCAN LLES 1: Gweithio gyda, a thros ein cymunedau



AMCAN LLES 2: Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy

189 o geisiadau

swyddi drwy Cymunedau am Waith (CaW) a CaW+, i fyny o 98 y llynedd.

£4.111m

o fuddsoddiad wedi ei neilltuo i wella trafndiaeth, sy'n fwy na buddsoddiadau y llynedd o 1.403m

70

o leoliadau gwaith a chyfleoedd prentisiaeth wedi'u creu o fewn y Cyngor, o 30 yn 2020/21

7.6%

ygyfradd swyddi gwag ar gyfartaledd yn ein prif ganol trefi, gwelliant o 9.61% y llynedd

54 o sefydliadau a

arweinir gan gymunedau wedi'u cefnogi'n ariannol, i fyny o 29 yn 2020/21.

1262 o fusnesau lleol

wedi'u cefnogi gyda chyllid, cynllunio busnes a busnesau newydd, i lawr o 2833 yn 2020/21.

240

o drigolion wedi ymgysylltu drwy'r fenter Cymunedau am Waith a Mwy (CaW+), cynnydd o ffigur y llynedd o 217

9%

o bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaeth ieuencid yn cyflawni canlyniad achrededig, wedi aros yn sefydlog o 2020/21

96.4%

o geisiadau cynllunio wedi cael penderfyniad mewn pryd, gwelliant o ffigur 2020/21 o 92%.

90%

o geisiadau Adeiladau Rhestredig wedi cael penderfyniad mewn pryd, cynnydd ar ein perfformiad o 80% y llynedd.

Wedi gwario **£5.576m**

miliwn o gyfraniadau A106 ar welliannau i drafndiaeth gyhoeddus, rhwydweithiau cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd, manau agored cyhoeddus a gwelliannau i gelf gyhoeddus yn 2021/22, i fyny o £5,427m

Llwyddwyd i sicrhau

£2.276m o

gyfraniadau A106 er budd ein cymunedau, cynnydd o £2.193m yn 2020/21

AMCAN LLES 3: Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol ar hyd arfordir Caerdydd a'r Fro wedi mwy na haneru yn y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi gostwng **55%** Oherwydd llwyddiant Operation Elstree (gweithrediad aml-asiantaeth sydd â'r nod o gadw ardaloedd arfordirol yn ddiogel ac yn addas i deuluoedd). Fel rhan o #OpElstree, rydym hefyd wedi cynyddu: patrolau ar droed, ceffyl, beic cwad ac ar gwch (gan 1,000+ o oriau); defnyddio hysbysiadau adran 35 i symud pobl ymlaen; presenoldeb fan CCTV mewn lleoliadau allweddol; defnyddio bandiau diogelwch i aduno plant sydd ar goll; dirwyon am barcio anghyfreithlon, taflu sbwriel (1,800+) a digwyddiadau addysgol ar y cyd.

334 days

i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl, cynnydd bychan mewn diwrnodau o'i gymharu â 2020/21, 332 diwrnod i gael canlyniad achrededig, gan aros yn sefydlog o 2020/21

19.7 diwrnod i osod eiddo gwag, o'i gymharu â 19.5 diwrnod yn 2020/21

Dyweddodd **92%** o ddefnyddwyr y gwasanaeth Cefnogi Pobl fod y gefnogaeth a gafwyd wedi eu helpu i gynnal eu hannibyniaeth, i lawr ychydig o 92.8% yn 2020/21.

14

o gartrefi newydd wedi eu creu o ganlyniad i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, sy'n uwch na ffigur y llynedd o 9

97%

o sefydliadau bwyd yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' â'r safonau hylendid bwyd, sydd wedi aros yn sefydlog o 2020/21

913,694

o ymweliadau â'n cyfleusterau chwaraeon a hamdden o 253,938 yn 2020/21.

13

o ofalwyr maeth newydd wedi'u recriwtio o gymharu â 10 y llynedd, gan helpu i wella sefydlogrwydd lleoliadau i'n plant a phobl ifanc.

189

o unedau tai fforddiadwy wedi'u darparu, gan ostwng o 229 yn 2020/21.

13

o gartrefi hygrych / addasedig newydd wedi'u darparu, sy'n uwch na ffigur y llynedd o 2.

96.5%

o bobl sydd wedi derbyn Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn teimlo fel bod yr help wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel / yn fwy annibynnol yn eu cartrefi, gan gynyddu o 95%.

44.9%

o deuluoedd wedi'u hatal yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref, gan ostwng o 76.9% yn 2020/21.

100%

o ddiodefswyr cam-drin domestig yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i fesurau gwella diogelwch, sydd wedi aros yn sefydlog o ffigur y llynedd.

0.90%

o rent wedi'i gollu am fod eiddo'n wag, o 0.88% yn 2020/21

AMCAN LLES 4: Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Mae **100%** o'n
goleuadau ar brif ffyrdd
wedi'u newid i LED, i fyny
o 68.2% y llynedd.

Mae **29,296.38 m²**
ychwanegol o dir parciau,
mannau agored a phrifyrdd
wedi eu hau gyda hadau
blodau gwyllt neu eu cynnal
fel ardal naturiol, gan wella o
ffigur 2020/21 o 245,697m²

Roedd **70.1%**
o wastraff y cartref a
gasglwyd naill ai'n cael ei
baratoi i'w aildefnyddio
a / neu ei ailgylchu,
gostyngiad bach o ffigur y
llynedd o 70.8%

1 diwrnod

i glirio digwyddiadau
tipio anghyfreithlon, o'i
gymharu â 0.92
diwrnod yn 2020/21

5

Gwobr Traeth wedi'u
cyflawni, o'i gymharu â 7
y llynedd

10

Parc Baner Werdd wedi'u
cyflawni a'u cynnal o
2020/21

100%

o brifyrdd o safon uchel
neu dderbyniol o lendid,
sydd wedi aros yn sefydlog
ers 2020/21

126 kg

o wastraff gweddilliol yn
cael ei gynhyrchu fesul
person, sydd wedi aros
yr un fath â'r llynedd.

100%

o Strwythurau Peryglus
wedi'u harolygu o
fewn 1 diwrnod gwaith
o'u derbyn, gan aros yn
sefydlog o'r llynedd

* Mae hyn yn ymwneud â nifer y m² o dir Parciau, Mannau Agored a Phrifyrdd sydd wedi'u hau gyda hadau blodau gwyllt neu sy'n cael eu cynnal fel ardal naturiol yn unol â rhaglen dad-ddofi bioamrywiaeth y cyngor.

Mae 274,993.38m² o dir yn gyfwerth â 38.5 cae pêl-droed

6.0 Prif Berfformiad 2021/22

Dyma'r ail Gynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) sy'n ymateb i'n Cynllun Corfforaethol 2020-2025. Mae ein Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd yn ystod y flwyddyn i gyflawni amcanion lles ein Cynllun Corfforaethol a chyflawni ein gweledigaeth o greu **Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair**. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u siapia gan adolygiad eang o asesiadau tystiolaeth ac anghenion a thrwy ymgysylltu â dinasyddion Bro Morgannwg, gweithwyr a'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Mae'r CCB yn pwysleisio chwe thema trawsbynciol y bydd y rhan fwyaf os nad pob cam gweithred yn y Cynllun yn cyfrannu atynt. Mae'r themâu o fynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd (Prosiect Sero), ymateb i'r argyfwng costau byw; darparu gofal a chymorth; cynnwys ein cymunedau, gwella ein seilwaith a thrawsnewid sut rydyn ni'n gweithio, hefyd yn cynrychioli rhai o'n heriau mwyaf arwyddocaol fel Cyngor nawr ac ar gyfer y dyfodol yn y tymor canol i'r tymor hir. Amlinellir isod adolygiad o'n perfformiad ar gyfer 2021/22 yn seiliedig ar y themâu hyn.

Ymgynghoriad Cynllun Cyflawni Blynyddol

Yn ystod y cyfnod ymgynghori (5 Awst – 18 Medi 2022) cynhaliwyd rhaglen ymgysylltu eang a oedd yn cynnwys mynychu nifer o ddigwyddiadau yn ystod yr haf, hyrwyddo arolwg ar-lein, a chyhoeddi animeiddiadau a phostiadau amrywiol ar y cyfryngau cymdeithasol. Derbyniodd yr ymgynghoriad 125 o ymatebion unigol i'r arolwg, ac er bod tua 2.5k o bobl wedi edrych ar yr animeiddiadau, cawsom 30 o sylwadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol ar draws y gwahanol animeiddiadau. Cafwyd 20 ymateb arall gan staff y Cyngor. Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd i'r arolwg yn amrywio o'r rhai a atebodd bob cwestiwn i'r rhai a oedd yn canolbwyntio ar ymateb i un neu ddau o gwestiynau yn unig. Roedd nifer sylweddol o sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â chwynion / ceisiadau gwasanaeth cyffredinol yn hytrach nag adborth penodol i'r ymgynghoriad ar yr arolwg. Roedd sylwadau cysylltiedig yn gyson ag ymatebion o'r arolwg cyhoeddus ar-lein.

Ar y cyfan, cafwyd ymateb isel i'r ymgynghoriad. Yn ogystal, rhaid nodi, fel ymgynghoriad cyhoeddus, bod yr ymatebwyr yn hunan-ddethol sy'n golygu nad yw'r ymatebion yn cael eu tynnu o sampl gynrychioliadol o'r boblogaeth ac o ganlyniad gallant gynnwys rhywfaint o ymgyrchu, hynny yw, ymatebwyr yn defnyddio'r arolwg i fynegi anfodlonrwydd am fater neu benderfyniad penodol. Er gwaethaf y gyfradd ymateb isel, mae crynodeb o farn yr ymatebwyr (a amlinellir isod) yn rhoi cipolwg i ni ar safbwyntiau rhanddeiliaid ac yn rhoi mewnwleidiadau defnyddiol i ni a fydd yn helpu i lunio blaenoriaethau Cynllun Cyflawni Blynyddol y flwyddyn nesaf.

Yr hyn sy'n amlwg hefyd o'r dadansoddiad o'r arolwg yw bod yna ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cyffredinol o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud a bod angen i ni wneud mwy i gyfleu gwybodaeth mewn ffordd sy'n haws i bobl ei deall fel eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu. Mae'r materion hyn yn cael eu symud ymlaen trwy ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd newydd.

6.1 Gweithredu Prosiect Sero

Beth ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud

Dywedon ni y byddem yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ymateb i'r argyfwng natur a gofyn i'r gymuned am yr hyn sydd angen ei newid.

Ein cyflawniadau

Gweithredu Prosiect Sero

Prynwyd 12 car trydan i'r gronfa geir fel rhan o'n strategaeth amnewid fflyd a fydd yn lleihau allyriadau gan 26,304kg bob blwyddyn. Mae gwaith wedi parhau i wneud perchnogaeth cerbydau trydan yn fwy hygyrch drwy raglen o osod 18 pwynt gwefru cerbydau trydan newydd mewn meysydd parcio yn ein prif drefi yn ogystal â darpariaeth ar y stryd. Ymestynwyd y cynllun tacsis trydan a lanswyd ym mis Rhagfyr 2021. Rydym hefyd wedi mabwysiadu polisi sy'n gofyn am osod pwyntiau gwefru trydan mewn datblygiadau newydd yn y Fro.

Fe wnaethom ddatblygu ac rydym ar fin dechrau ymgysylltu â'r cyhoedd i lunio ein Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Ddrafft.

Sicrhawyd arian i ddiogelu dyfodol gwasanaeth Trafnidiaeth Gymunedol Greenlinks

Sefydlwyd Partneriaeth Natur Leol, gan gytuno ar raglen o welliannau amgylcheddol naturiol lleol a'i chyflwyno.

Mae 100% o oleuadau ein prif strydoedd wedi'u newid i LED, bron i 15,000 o lusernau.

Mae rhaglen adeiladu Tai Cyngor wedi ymgorffori technolegau gwyrdd newydd yng nghynlluniau tai newydd sy'n cael eu datblygu ar hen safle Clinig Iechyd Colcot, Hayeswood Road, Y Barri, cam 2 Clos Holm View, Y Barri ac ar St Cyres Road, Penarth.

Fel rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o'r broses o brynu Gorsaf Bŵer segur Aberddawan. Mae £36.4m wedi'i ymrwngwyo i'r prosiect a fydd yn cefnogi cynlluniau'r safle at y dyfodol ar gyfer prosiectau adnewyddadwy a gwyrdd. Mae'r uwchgynllun yn cynnwys: cyfleuster storio batris i gefnogi prosiectau ynni gwyrdd; datblygu clwstwr gweithgynhyrchu di-garbon a fydd yn cynnwys cyfleusterau cynhyrchu hydrogen gwyrdd; canolfan arloesi ynni gwyrdd i hyrwyddo arloesedd, twf, gwybodaeth a rhyngweithio cymunedol gyda dyfodol di-garbon Cymru; datblygu a chynnal parc ecoleg bio-amrywiol a fydd yn cynnwys canolfan ymwelwyr, gan ddarparu amwynderau i'r gymuned leol a chefnogi dad-garboneiddio diwydiannol a chyfleusterau giga-fatri yn y dyfodol.

Sicrhawyd cyllid ar gyfer 6 cynllun Teithio Llesol ychwanegol drwy arian A106 sy'n parhau i gefnogi newid ymddygiad gan gynnwys ymestyn y seilwaith beiciau OVO, gosod gorsafoedd pypiau / trwsio beiciau ledled y Fro. Mae 18 o ysgolion wedi cofrestru i brosiect WOW Living Street sy'n annog plant i gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysgol. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar gynlluniau gwella trafndiaeth mawr yn Weycock Cross a Phenarth i Fae Caerdydd, Cyffordd 34 yr M4 i'r A48 a Dinas Powys a chyfnewidfa trafndiaeth yn Nociâu'r Barri.

Cyflwynwyd gwelliannau i reoli gwastraff drwy gyflwyno trefniadau ailgylchu newydd, system archebu electronig ar gyfer Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, gweithio gyda chymunedau i ail-fywiogi ac ailffocysu ein hymrwymiad i arbed, aildefnyddio ac ailgylchu, agor cyfleuster ail-ddefnyddio newydd a sicrhau bod gan ein holl gontractau gwastraff gyrchfannau moesegol ar gyfer ailwerthu ac aildefnyddio deunydd ailgylchadwy a gynhyrchir gan drigolion y Fro.

Wrth edrych ymlaen at 2023/24, ai dyma'r meysydd cywir i ganolbwyntio arny'n nhw?

Byddwn ni'n parhau i hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gymunedol a chyhoeddus ac i osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan. Byddwn ni'n datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd ac yn cyflwyno ein Cynllun Bioamrywiaeth. Byddwn ni'n buddsoddi mewn gwaith rheoli gwastraff a'n hadeiladau gan eu gwneud yn fwy ynni-effeithlon, a byddwn ni'n adolygu ein harferion caffael.

Beth ddwedoch chi

Roedd 24% (o'r 121 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ein bod wedi cyflawni ein hymrwymadau CCB 2021/22 mewn perthynas â Phrosiect Sero gyda 36% naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd 40% yn niwtral ynglŷn â'n cynnydd mewn perthynas â Phrosiect Sero, ac o'r farn, er bod rhai cyflawniadau'n gadarnhaol, nad yw ymrwymadau'r Cyngor yn mynd yn ddigon pell. Gwnaeth ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno bod y Cyngor wedi cyflawni ei ymrwymadau CCB 2021/22 mewn perthynas â Phrosiect Sero dynnu sylw at brosiectau mawr fel gwaith nwy biomas y Barri, datblygiad Model Farm, datblygiad Dociau'r Barri a chynigion Marina'r Barri fel tystiolaeth a oedd yn dangos diffyg dealltwriaeth gan y Cyngor o'i effeithiau amgylcheddol.²

Roedd 35% (o'r 20 aelod o staff a ymatebodd) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ein bod wedi cyflawni ein hymrwymadau CCB 2021/22 mewn perthynas â Phrosiect Sero gyda 15% naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd 50% yn niwtral ynglŷn â'n cynnydd mewn perthynas â Phrosiect Sero, ac o'r farn, er bod rhai cyflawniadau'n gadarnhaol, nad yw ymrwymadau'r Cyngor yn mynd yn ddigon pell. Nododd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno bod y Cyngor wedi cyflawni ei ymrwymadau CCB 2021/22 mewn perthynas â Phrosiect Sero awydd i staff gyfrannu at yr agenda Sero Net ac i'r Cyngor ddangos mwy o arweinyddiaeth gymunedol er enghraifft, drwy adolygu asedau a pholisiau'r Cyngor ymhellach. Roedd staff hefyd eisiau gweld ffocws ar seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth, trafndiaeth gyhoeddus a chefnogaeth tuag at ddarparu seilwaith cerbydau trydan.

Mae'r safbwyntiau hyn yn adlewyrchu'r heriau cymhleth rydym yn eu hwynebu wrth fynd i'r afael ag agenda newid yn yr hinsawdd uchelgeisiol ochr yn ochr ag adeiladu adferiad economaidd cynaliadwy a gwydn ar ôl COVID-19. Mae'r heriau hyn yn cael eu gwaethygu ymhellach gan adnoddau annigonol gan y llywodraeth, diffyg arbenigedd yn y maes hwn a chyfyngu ar y pwerau rheoleiddio presennol i gefnogi'r newidiadau angenrheidiol ar gyfer y tymor hir. Mae nod y Cyngor o addasu a lliniaru hinsawdd yn dibynnu ar adeiladu partneriaethau effeithiol, ymgysylltu â'r gymuned, strategaethau seilwaith, addysg a gwasanaethau cynaliadwy, fodd bynnag, bydd y rhain yn cymryd amser i'w datblygu ac angen buddsoddiad digonol. Byddwn ni'n parhau i hyrwyddo'r cyfleoedd y mae'r dull hwn yn eu cynnig i bartneriaid yn y sector cyhoeddus, busnesau, cymunedau a dinasyddion y Fro er mwyn gwreiddio strategaethau addasu newid yn yr hinsawdd yn rhagweithiol a chryfhau gwydnwch lleol.

Roedd 83% (o'r 123 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Amlinellir y meysydd yr awgrymwyd y dylid canolbwyntio'n benodol arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod isod, a bydd y rhain yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24:

- Gwella'r seilwaith cerdded a beicio, trafndiaeth gyhoeddus a hyrwyddo teithio llesol;
- Diogelu bioamrywiaeth;
- Cefnogi preswylwyr a busnesau i wneud cartrefi a busnesau presennol yn fwy ecogyfeillgar / ynni-effeithlon e.e. pŵer solar, technoleg pwmp gwres;
- Lleihau adeiladu ar fannau gwyrdd a sicrhau bod gan bawb fynediad i natur;

² Mae'r Cyngor yn cymryd sylw o bryderon a godwyd ond mae'n bwysig bod yn ymwybodol nad oes modd ystyried materion fel y rhai a amlygwyd uchod ar wahân a rhaid eu hystyried gan gyfeirio at yr holl ddeddfwriaeth ac effeithiau yn ogystal â lles economaidd a chymunedol. Mae gan y Cyngor hefyd rôl i'w chwarae wrth egluro'r broses sy'n arwain at y materion a'r datblygiad a amlygwyd a sut mae hyn yn ceisio lliniaru effeithiau wrth symud ymlaen.

- Gwneud pwyntiau Cerbydau Trydan yn fwy hygyrch a fforddiadwy;
- Cefnogi datblygu cynlluniau effeithlonrwydd ynni cymunedol a chynlluniau gwresogi cymdogaeth ar y cyd;
- Cynyddu cyfleoedd ailgylchu i breswylwyr ac ymwelwyr;
- Adeiladu diwylliant yn y Cyngor ac ymysg ein dinasyddion, sy'n parchu'r amgylchedd.

Roedd 95% (o'r 20 aelod o staff a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Y meysydd yr awgrymwyd y dylid canolbwyntio'n benodol arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd:

- Gwella ymhellach effeithlonrwydd carbon o fewn adeiladau ac asedau'r Cyngor;
- Gwella gwasanaethau trafndiaeth lleol (bysus a threnau);
- Rhoi cymorth i wneud cartrefi presennol yn fwy ynni-effeithlon;
- Integreiddio seilwaith glas a gwyrdd a diogelu bioamrywiaeth;
- Hybu parch at yr amgylchedd gyda galwad i'r cyhoedd a staff wneud mwy.

Mae'r meysydd ychwanegol y dylid canolbwyntio arnynt yn ôl ymatebwyr mewn perthynas â'n hymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd 'Prosiect Sero' yn cwmpo'n fras o fewn y meysydd ffocws a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer y thema CCB hon, gan roi sicrwydd pellach i'n canfyddiadau hunanasesu a'n cyfeiriad arfaethedig ar gyfer 2023/24.

Ein casgliad yw ein bod wedi bod yn llwyddiannus yn unol â'n hymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 mewn perthynas â Phrosiect Sero, er bydd gwaith yn parhau ar y cyd â'n dinasyddion, cymunedau a'n partneriaid i adeiladu addasu a lliniaru'r hinsawdd fel blaenoriaeth strategol hirdymor i'r Cyngor.

6.2 Ymateb i'r Argyfwng Costau Byw

Beth ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud

Dywedon ni y byddem yn helpu'r rhai sy'n cael trafferth gyda chostau byw ac sy'n cael trafferthion ariannol, problemau gyda'u sefyllfa tai neu anhawster dod o hyd i gyflogaeth addas ac y byddem yn darparu mwy o gyfleoedd i chwarae a gwneud chwaraeon.

Ein cyflawniadau

Ymateb i'r Argyfwng Costau Byw

Rydym wedi pacio a darparu cyfanswm o 645 o barseli bwyd, a gafodd eu dosbarthu drwy Dimau'r Cyngor; Cefnogi Pobl, Dechrau'n Deg, y Tîm Cyflogadwyedd, Derbyn a Chymorth i Deuluoedd, Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Tîm 15+ Pobl Ifanc yn Gadael Gofal, a'r Ganolfan Gyswllt. Dosbarthodd y partneriaid rai i'w defnyddwyr gwasanaeth hefyd, sef Hafod, Pobl, Llamau, Atal y Fro, a The Wallich.

Cefnogwyd grwpiau agored i niwed penodol sy'n wynebu pwysau o ganlyniad i gostau byw drwy ddefnyddio cyllid LIC e.e. taliad untro o £100 i bob plentyn / person ifanc sy'n gymwys ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd ar ddod, a thaliad o £500 i ofalwyr di-dâl a thaliad ychwanegol o £1,498 i weithwyr cartrefi gofal cofrestredig, gweithwyr gofal cartref a Chynorthwyr Personol yng Nghymru, ochr yn ochr â chyflwyno'r cyflog byw gwirioneddol.

Gweithredwyd pecyn o gymorth ariannol i breswylwyr o'r DU / LIC sy'n cynnwys £400 oddi ar filiau ynni i bob cartref, taliad untro o £650 i aelwydydd sy'n derbyn budd-dal sy'n dibynnu ar 'brawf modd', £300 ychwanegol i bensiynwyr, £150 i'r rhai sy'n derbyn taliadau anabledd ac addaliad treth gyngor gwerth £150 i gartrefi ym mandiau Treth Gyngor A i D.

Cyflwynwyd prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwysau cynyddol o ran y costau byw ar deuluoedd.

Sefydlwyd hyb gwybodaeth costau byw ar ein gwefan, gan gyfeirio'r cyhoedd at gymorth a chyngor. Hefyd, fe wnaethon ni gynyddu ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â dinasyddion ar faterion costau byw a chodi proffil y cymorth a'r cyngor sydd ar gael.

Sefydlwyd grŵp Landlordiaid Aml-Asiantaeth sy'n ystyried yn rheolaidd sut y gallwn liniaru effeithiau andwyol y costau byw ar denantiaid.

Atal digartrefedd ymhlith ein dinasyddion drwy gymorth targedig gyda thaliadau ôl-ddyledion a benthyciadau gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru.

Gweithredwyd Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf a ariennir gan LIC ar gyfer y rhai sy'n derbyn budd-dal prawf modd oedran gweithio, gydag aelwydydd cymwys yn cael taliad ariannol untro o £200 tuag at eu biliau ynni. Bydd yr arian hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi taliad tanwydd arall yn yr hydref.

Fe wnaethom weithio mewn partneriaeth â Chyngor ar Bopeth i gyfeirio preswylwyr at gyngor a chymorth ychwanegol yn ymwneud â chostau byw.

Defnyddiwyd cyllid Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol i fanciau bwyd lleol a mentrau bwyd cymunedol. Hefyd, i fynd i'r afael ag urddas mislif yn ein cymunedau

Ymateb i'r Argyfwng Costau Byw

Mae 130 o ystafelloedd wedi'u sicrhau tan 2023 fel llety brys i bobl ddigartref, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi cleientiaid i symud yn eu blaen i lety mwy parhaol. Rydyn ni hefyd wedi darparu 11 uned llety brys ar ein hamwynder ar Court Road gydag ail gynllun ar y gweill a fydd yn darparu llety cymorth ar gyfer anghenion cymhleth i'r cleientiaid mwyaf agored sydd mewn llety gwely a brechwast symud i mewn iddo nes iddynt gaffael y sgiliau ar gyfer byw'n annibynnol. Mae 930 o bobl wedi cael llety gwely a brechwast dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Fel rhan o'n Cynllun Buddsoddi yn y Gymuned, fe wnaeth y rhaglen Cyflogaeth a Sgiliau "Opportunity Knocks" gefnogi 140 o drigolion drwy sioeau cyflogadwyedd y Fro, 60 o drigolion trwy ein rhaglen hyfforddiant cyn cyflogaeth a 30 o drigolion drwy ein gwrsyll cyflogadwyedd preswyl. Fe wnaethon ni wella rhagolygon cyflogaeth drwy greu 7x6 wythnos o leoliadau gwaith yn y Cyngor, sicrhau gwerth 369 wythnos o hyfforddiant drwy ein rhaglen datblygu tai, helpu 110 o drigolion i gael gwaith, a helpu 961 o drigolion eraill i ennill cymwysterau galwedigaethol achrededig.

Cynyddwyd nifer y bobl sy'n manteisio ar gyfleoedd chwarae a chwaraeon, gan dargedu ardaloedd cyfranogiad isel drwy brosiectau fel Addysg Actif y Tu Hwnt i'r Ysgol, Haf o Hwyl / Gaeaf Llawn Lles Llywodraeth Cymru, 'Active Girls on the Move', Iach Gartref, Teuluoedd Actif Gyda'i Gilydd a hefyd pobl hŷn 60+. Yn ogystal, roedd dros 74,500 o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy'r Rhaglen Pobl Ifanc Actif a oedd yn gweithio mewn partneriaeth â dros 180 o bartneriaid. Gwnaeth 98 o sefydliadau gymryd rhan mewn 87 o gyfleoedd hyfforddiant arweinyddiaeth a gwirfoddoli, yn cynnwys 2206 o oriau hyfforddi a 2183 o oriau gwirfoddoli gan bobl ifanc drwy'r Rhaglen Pobl Ifanc Actif.

Sefydlwyd siop wybodaeth un stop wrth ymyl pod Bwyd Penarth fel bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu galw heibio i gael cyngor ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys tai, dyled, cyngor ariannol / budd-daliadau, addysg a sgiliau, cynhwysiant Digidol, offer chwarae am ddim a sut i fenthyca eitemau o'r llyfrgell Bentyca.

Fe wnaeth 771 o drigolion ddefnyddio Siop Un Stop y Cyngor a chael nifer o sesiynau cymorth dros y flwyddyn ar ystod o faterion gan arwain at effaith gadarnhaol o ran gwell sefyllfa dai, sefyllfa economaidd ac ariannol ac iechyd personol a lles cyffredinol.

Cafodd 189 o bobl ifanc ac oedolion a oedd yn profi rhwystrau o ran cyflogaeth a hyfforddiant eu cefnogi i swyddi drwy'r Rhaglen Cymunedau am Waith.

Sefydlwyd 'Pecyn Argyfwng Costau Byw' sy'n cynorthwyo trigolion drwy becyn cynhwysfawr o gefnogaeth a chyngor i hyrwyddo cynhwysiant ariannol a lliniaru effeithiau andwyol diwygio lles a chostau byw cynyddol.

Cafodd 329 o denantiaethau eu cynnal 6 mis ar ôl cael cyngor ariannol, gan ddangos bod help gyda gwneud y mwyaf o incwm, hawlio'r budd-daliadau cywir a rheoli arian yn cael effaith gadarnhaol sylweddol.

Cefnogwyd 300 o gyn-filwyr gyda materion fel digartrefedd, dyled, budd-daliadau, iechyd meddwl a lles. Sicrhawyd £19K mewn arian grant sy'n cefnogi mentrau cynhwysiant digidol ar gyfer cyn-filwyr.

Cefnogwyd trigolion yn profi ansicrwydd bwyd tra'n lleihau gwastraff bwyd drwy gynlluniau ledled y Fro, fel Pod Bwyd Penarth, Mynediad at Fwyd Llanilltud Fawr - Rhannu Bwyd CF61, y Big Bwcs Bwyd yn y Barri, fan Cadfeld ac Ysgol y Draig

Wrth edrych ymlaen at 2023/24, ai dyma'r meysydd cywir i ganolbwyntio arny'n nhw?

Byddwn ni'n gweithio i leihau digartrefedd ac yn mynd i'r afael â thlodi bwyd, gan ddarparu budd-daliadau, gwasanaethau cyflogaeth, cyngor ariannol a chymorth i'r rheiny sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi ag effeithiau'r argyfwng costau byw.

Beth ddwedoch chi

Roedd 20% (o'r 120 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ein bod wedi cyflawni ein hymrwymadau CCB 2021/22 mewn perthynas ag ymateb i'r argyfwng costau byw gyda 30% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd 50% yn niwtral ynglŷn â'n cynnydd ac o'r farn, er bod rhai cyflawniadau'n gadarnhaol, nad yw ymrwymadau'r Cyngor yn mynd yn ddigon pell i gefnogi preswylwyr nad ydynt yn derbyn budd-daliadau, yn enwedig teuluoedd sy'n gweithio sy'n ei chael hi'n anodd. Y prif resymau a nodwyd gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'n safiad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ymrwymadau CCB 2021/22 mewn perthynas â'r argyfwng costau byw, oedd y diffyg cefnogaeth i lawer o deuluoedd sy'n gweithio sydd ychydig yn uwch na'r trothwy budd-daliadau sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd, y farn nad oedd y Cyngor yn gwneud digon i gefnogi tlodi tanwydd a bwyd a bod diffyg gwybodaeth o ran sut i fanteisio ar gefnogaeth sydd ar gael.

Roedd 40% (o'r 20 aelod o staff a ymatebodd) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ein bod ni wedi cyflawni ein hymrwymadau CCB 2021/22 mewn perthynas ag ymateb i'r argyfwng costau byw gyda 40% yn niwtral ynglŷn â'n cynnydd. Roedd 20% o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'n safiad bod y Cyngor wedi bodloni ei ymrwymadau CCB 2021/22 mewn perthynas â'r argyfwng costau byw, gan nodi diffyg cefnogaeth i bobl / teuluoedd sy'n gweithio sydd ychydig yn uwch na'r trothwy budd-daliadau sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd, y cynnydd mewn cyflwyniadau digartrefedd yn enwedig ymysg pobl iau a'r angen cynyddol am Fanciau Bwyd.

Ni all y Cyngor fynd i'r afael ag effaith yr argyfwng costau byw ar ddinasyddion ar ei ben ei hun ac o ganlyniad mae ein ffocws wedi bod ar adeiladu dulliau cydweithredol lleol newydd a chryfhau'r rhai presennol gyda phartneriaid allweddol yn y sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector, gan ganolbwyntio'n benodol ar atebion hirdymor gyda'r nod o fynd i'r afael â phwysau costau byw sy'n lleihau'r angen am gymorth brys yn y pen draw. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar adeg pan fo'r galw am ein gwasanaethau ar ei lefel uchaf erioed ac mae ein hadnoddau ariannol a phobl eisoes o dan straen sylweddol, wedi'u gwaethygu gan gostau chwyddiant cynyddol. Fodd bynnag, rydym yn parhau'n gadarnhaol y bydd ein dull cydweithredol yn ein galluogi i integreiddio ein hadnoddau yn well i hwyluso dull cynaliadwy sydd nid yn unig yn targedu cefnogaeth at y rhai sy'n wynebu'r heriau costau byw mwyaf cymhleth, ond hefyd yn darparu cefnogaeth i'r dinasyddion hynny nad ydynt tan nawr wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cael mynediad at gymorth.

Roedd 80% (o'r 121 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Y meysydd yr awgrymwyd y dylid canolbwyntio'n benodol arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd:

- Darparu mwy o gefnogaeth i deuluoedd sy'n gweithio sy'n cael trafferth gyda'r argyfwng costau byw;
- Darparu mwy o gefnogaeth i dlodi tanwydd ac ansicrwydd bwyd drwy bartneriaethau cyhoeddus / preifat a mentrau gwirfoddol;
- Cefnogi mentrau lles cymunedol e.e. manau tyfu cyhoeddus a grwpiau cymunedol sydd â buddion cymdeithasol, meddyliol a chorfforol yn ogystal â rhoi sgiliau i drigolion dyfu a choginio cynnyrch ffres lleol.
- Annog entrepreneuriaeth a chefnogi trigolion i helpu eu hunain a gwella eu rhagolygon cyflogaeth;
- Cynyddu mynediad at fesurau effeithlonrwydd ynni ac ôl-osod i helpu i leihau costau ynni;
- Atal digartrefedd a chefnogi'r rhai sy'n ddigartref.

Roedd 95% (o'r 20 aelod o staff a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Y meysydd yr awgrymwyd y dylid canolbwyntio'n benodol arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd:

- Canolbwyntio ar wasanaethau cyflogaeth, cael pobl oddi ar fudd-daliadau ac i mewn i waith;
- Cefnogi pobl / teuluoedd sy'n gweithio nad ydynt yn derbyn budd-daliadau ond sy'n dal i deimlo effaith yr argyfwng costau byw;
- Cynyddu cymorth ar lefel gymunedol;
- Mwy o frys wrth ddelio â'r argyfwng costau byw.

Mae'r meysydd ychwanegol y dylid canolbwyntio arnynt yn ôl ymatebwyr mewn perthynas â'n 'Ymateb i'r Argyfwng Costau Byw' yn cwmpo'n fras o fewn y meysydd ffocws a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer y thema CCB hon, gan roi sicrwydd pellach i'n canfyddiadau hunanasesu a'n cyfeiriad arfaethedig ar gyfer 2023/24.

Ein casgliad yw ein bod ni, ar y cyfan, wedi ymateb yn gadarnhaol wrth gyflawni ein hymrwymiaadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 mewn perthynas â'r argyfwng costau byw. Mae'r argyfwng costau byw yn sylweddol, nid yn unig sut rydym yn gweithredu ein gwasanaethau, ond hefyd sut rydym yn cefnogi ein dinasyddion a'n cymunedau. Mae'r argyfwng ei hun yn cael ei yrru gan sawl ffactor allanol sy'n parhau y tu allan i'n rheolaeth uniongyrchol. Mae wedi creu senario lle mae cost ein hanfodion bob dydd fel ynni, bwyd ac ati yn codi uwchben incwm cyfartalog. Mae nifer o rymoedd trawsbynciol y tu ôl i'r argyfwng esblygol hwn, sy'n adlewyrchu natur gymhleth a rhyng-gysylltiedig ein marchnadoedd byd-eang. Felly mae angen i ni ganolbwyntio ar ddiogelu ein gwasanaethau at y dyfodol, fel eu bod yn gynaliadwy yn ariannol wrth symud ymlaen a datblygu ein rôl ymhellach fel 'Arweinydd Cymunedol' drwy adeiladu pecyn o fesurau wedi'u targedu i gefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Byddwn yn gwneud hyn drwy barhau i weithio ar y cyd â phartneriaid allweddol ar draws pob sector i ddatblygu dull cynaliadwy o fynd i'r afael ag effaith pwysau costau byw ar ein dinasyddion a allai fod gyda ni am beth amser i ddod.

6.3 Cynnwys ein Cymunedau

Beth ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud

Dywedon ni y bydden ni'n sicrhau bod gan bobl lais cryfach a'u bod yn gallu dylanwadu ar wasanaethau a llunio gwasanaethau a gweithgareddau yn y Fro.

Ein cyflawniadau

Cynnwys ein Cymunedau

Mae'r preswylwyr wedi helpu i lunio gwasanaeth Celfyddydau mwy cynaliadwy a chynhwysol gan arwain at nifer uwch ac amrywiaeth o gyfleoedd i ddinasyddion y Fro gymryd rhan yn y gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol a dysgu drwy: ardaloedd Gofod Gwneud newydd yn llyfrgelloedd Penarth a'r Barri; mwy o arddangosfeydd digidol a gweithgareddau digidol; rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau celfyddydol masnachol a chymunedol ym Mhafiliwn Penarth gan gynnwys sinema; cyfrifiad blynyddol ar gelfyddydau'r Fro i nodi anghenion a sefydlu cefnogaeth i sefydliadau celfyddydol lleol.

Mae defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid allweddol wedi llywio Strategaeth Eiriolaeth newydd a'r broses o ail-gomisiynu Gwasanaethau Eiriolaeth Ranbarthol ar gyfer oedolion a fydd yn helpu i sicrhau yr ystyrir eu buddiannau gorau mewn perthynas â'u gofal iechyd.

Ffocws newydd ar gynnwys llais pobl ifanc ym mhob agwedd ar fusnes y Cyngor a chryfhau'r bartneriaeth rhwng pobl ifanc a'r Cyngor wrth lunio ein blaenoriaethau adfer a datblygu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Helpon ni gymunedau yn Ystâd St Paul a St Luke, Penarth i wneud y lle yn lanach, yn wyrddach, yn iachach ac yn fwy cysylltiedig yn rhan o'r prosiect 'Llechen Lân'. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at gynnwys y gymuned yn weithredol wrth ddatblygu pod bwyd, ardal chwarae i blant, gardd gymunedol a thŷ gwydr, casglu sbwriel ac amnestau yn ogystal â chanolfan wybodaeth i gefnogi'r gymuned.

Annog cyfranogiad gweithredol gan drigolion i hyrwyddo perchnogaeth gymunedol ar welliannau amgylcheddol lleol gyda thrigolion yn dylanwadu ar y dyluniadau, offer chwarae a chyfleusterau hamdden eraill yn eu hardaloedd e.e. ardaloedd chwarae ym Mhenarth yn St. David's Crescent / Owain Crescent, Man Agored y Grange, Ardal Chwarae Windmill Lane, Pafiliwn Belle Vue, a chynllun Celf Gyhoeddus Paget Road, Cynllun Celf Cyhoeddus Dingle a'r cynllun Celf Gyhoeddus Lloches Hanesyddol.

Gwnaethon ni fabwysiadu Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid a Lesddeiliaid newydd a gyd-gynhyrchwyd gyda thenantiaid a lesddeiliaid. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi newid sut rydyn ni'n cyfathrebu â thenantiaid, gan gyflwyno cylchlythyr, taflenni a grŵp newydd i fonitro ansawdd gwasanaeth. Hefyd mae mwy o denantiaid wedi cael eu hyfforddi fel Hyrwyddwyr Digidol, gan ddarparu hyfforddiant a chymorth TGCh i drigolion eraill wrth baratoi ar gyfer ehangu'r ystod o wasanaethau ar-lein y gall tenantiaid gael mynediad atynt.

Wrth edrych ymlaen at 2023/24, ai dyma'r meysydd cywir i ganolbwyntio arny'n nhw?

Byddwn ni'n parhau i gynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol ar draws yr holl wasanaethau, gweithredu ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd a chynyddu cyfranogiad pobl ifanc a chyfranogiad yr holl bobl hynny nad ydynt yn cael eu clywed yn aml.

Beth ddwedoch chi

Roedd 28% (o'r 121 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ein bod wedi cyflawni ein hymrwymiaidau CCB 2021/22 mewn perthynas â chynnwys ein cymunedau wrth lunio gwasanaethau a gweithgareddau yn y Fro, gyda 38% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd 34% yn niwtral ynglŷn â'n cynnydd gyda'r mwyafrif yn nodi diffyg cysondeb yn y modd y mae'r Cyngor yn dehongli / defnyddio barn trigolion wrth lywio penderfyniadau. Hefyd, roedd llawer yn teimlo bod angen i'r Cyngor fod yn fwy rhagweithiol wrth ymgysylltu'n rheolaidd â dinasyddion am yr hyn y mae'n ei wneud o'r dechrau ac nid fel ychwanegiad neu i dicio blwch. Hefyd, roedd yr ymatebwyr yn ystyried bod angen mwy o ymdrech i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o sut a pham y gwneir penderfyniadau. Cyfeiriwyd at dystiolaeth gyfyngedig o ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedau lleol wrth lunio penderfyniadau'r Cyngor a methiant i wrando ar farn trigolion ac ymateb iddynt (hyd yn oed os oedd y penderfyniadau hynny y tu allan i reolaeth uniongyrchol y Cyngor) yn gyffredinol ac yn fwy penodol ar faterion lleol allweddol fel ffatri Biomas y Barri a datblygiad y Rhws gan ymatebwyr fel y prif resymau dros anghytuno'n gryf neu anghytuno â'n dyfarniad bod y Cyngor wedi cwrdd â'i ymrwymiaidau CCB 2021/22 i gynnwys cymunedau.

Roedd 25% (o'r 20 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ein bod wedi cyflawni ein hymrwymiaidau CCB 2021/22 mewn perthynas â chynnwys ein cymunedau wrth lunio gwasanaethau a gweithgareddau yn y Fro, gyda 20% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd 55% yn niwtral ynglŷn â'n cynnydd. Roedd ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'n dyfarniad, o'r farn bod diffyg dealltwriaeth yn gyffredinol ynglŷn â sut a lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn y Cyngor a bod rhaid gwneud mwy i fynd i'r afael â hyn ochr yn ochr â darparu cyfleoedd gwell ar gyfer ymgysylltu mwy ystyrion.

Mae'r Cyngor yn deall ac yn gwerthfawrogi'r angen i ymgysylltu a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau, dinasyddion a'n cymunedau mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u cymunedau, o ganlyniad, mae ymrwymiad hirsefydlog i gynyddu cyfranogiad dinasyddion er mwyn gwella ein heffeithiolrwydd, tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau, dylunio gwasanaethau a chyflawni a chanlyniadau cyffredinol. Mae digwyddiadau diweddar fel Covid-19 wedi amlygu pwysigrwydd profiad ein dinasyddion i roi mewnwelediadau gwerthfawr i'n penderfyniadau, a bod rhaid i bobl deimlo bod croeso iddynt gymryd rhan. Dyma ganolbwynt ein Strategaeth Cyfranogiad newydd sy'n ceisio sicrhau bod ein holl randdeiliaid yn cael cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau mewn ffordd barhaus ac ystyrion ac rydym wedi cynnwys ein dinasyddion wrth gyd-gynhyrchu hyn.

Mae safbwyntiau ymatebwyr yn yr arolwg yn pwysleisio'r angen i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ddigon cynnar fel y gallant nid yn unig lunio'r atebion i faterion / gweithgareddau lleol, ond y cwestiynau a ofynnir, a'r pynciau a ystyrir. Yn ogystal, mae angen rhoi adborth i randdeiliaid ar sut mae eu barn wedi llywio'r penderfyniadau a'r camau gweithredu dilynol. Mae angen i randdeiliaid weld pa effaith y mae eu cyfranogiad wedi'i gael. Rydym yn cydnabod bod angen i ni fod yn fwy tryloyw ar y dechrau ynglŷn â'r telerau ymgysylltu, hynny yw, yr hyn y gellir ei gyflawni trwy gymryd rhan, fel arall gall rhanddeiliaid deimlo fel eu bod yn cael eu heithrio os nad yw canlyniadau'n bodloni eu disgwyliaid. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gynigion datblygu lle mae'r broses ymgynghori gyda'r cyhoedd yn cael ei rheoli gan ofynion deddfwriaethol nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth drostynt. Rydym yn edrych ar ddulliau newydd ac arloesol gan gynnwys dulliau digidol i sicrhau ein bod yn effeithiol yn teilwra ymgysylltu i gyd-fynd ag anghenion a diddordebau pobl i nid yn unig gynyddu cyfleoedd cyfranogi, ond hefyd y tebygolrwydd y bydd pobl yn manteisio ar gyfleoedd.

Roedd 87% (o'r 121 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Y meysydd yr awgrymwyd y dylid canolbwyntio'n benodol arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd:

- Cynnwys sefydliadau'r trydydd sector yn fwy yng ngwaith y Cyngor;
- Mynd ati'n rhagweithiol i geisio, gwranddo ac ymateb i brofiad dinasyddion (o bob oed) i lywio sut mae'r Cyngor yn llywio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau a dangos tryloywder drwy'r broses;
- Defnyddio technoleg i'r eithaf i gynyddu ymgysylltiad â dinasyddion;
- Targeddu ac annog cyfranogiad gan gymunedau sydd wedi'u datgysylltu a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol;
- Cynnwys cymunedau wrth lunio a darparu ymyriadau newid yn yr hinsawdd;
- Nodi targedau blynyddol penodol er mwyn dangos yr hyn sy'n cael ei gyflawni.

Roedd 85% (o'r 20 aelod o staff a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Y meysydd yr awgrymwyd y dylid canolbwyntio'n benodol arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion pobl ag anableddau er enghraifft mynediad i glybiau chwaraeon;
- Cefnogaeth i dimau'r Cyngor i sicrhau dull cyson a llawn adnoddau ar gyfer gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu;
- Mynd i'r afael â'r diffyg dealltwriaeth ynghylch y broses gwneud penderfyniadau a gwneud y broses ymgysylltu yn fwy ystyrlon.

Mae'r meysydd ychwanegol y dylid canolbwyntio arnynt yn ôl ymatebwyr mewn perthynas â 'Cynnwys ein Cymunedau' yn cwmpo'n fras o fewn y meysydd ffocws a gynigiwyd yn flaenrol ar gyfer y thema CCB hon, gan roi sicrwydd pellach i'n canfyddiadau hunanasesu a'n cyfeiriad arfaethedig ar gyfer 2023/24.

Ein casgliad yw ein bod, yn gyffredinol, wedi cyflawni ein hymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 mewn perthynas ag ymgysylltu â chymunedau i helpu i lywio ein gwasanaethau a'n gweithgareddau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gwaith pellach i'w wneud i wella ein dull a'n cyrhaeddiad. Yn unol â'n Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, byddwn yn gweithio ar y cyd tuag at ymgysylltu ystyrlon, hygyrch, amserol a chytbwys i'n helpu i sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr gwasanaethau, dinasyddion a'n cymunedau.

6.4 Darparu Gofal a Chymorth

Beth ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud

Dywedon ni y bydden ni'n bodloni anghenion ein trigolion mwy agored i niwed ac yn sicrhau bod gan bobl fynediad i wybodaeth, gofal a chymorth.

Ein cyflawniadau

Darparu Gofal a Chymorth

Cofrestrodd 5 asiantaeth gofal ychwanegol i'n cynllun 'Eich Dewis Chi', gan gynyddu'r dewis sydd ar gael i drigolion sy'n agored i niwed i gefnogi a gwella eu lles a'u hannibyniaeth. Rydyn ni hefyd wedi cytuno ar contract cartref gofal rhanbarthol gyda phartneriaid a'r Bwrdd Iechyd i wella gwasanaethau a chanlyniadau i oedolion sy'n agored i niwed.

Defnyddiodd 1,400 o bobl ifanc agored i niwed amrywiaeth o brosiectau gwaith ieuencid, ymyriadau, cymorth lles, mentora lles a gwasanaethau atal digartrefedd yn ddigidol ac wyneb yn wyneb.

Successfully delivered Operation Elstree (a multi-agency operation aimed at keeping coastal areas safe and family-friendly) with the Police, Welsh Ambulance Service, RNLI, South Wales Fire & Rescue and local businesses. Anti-social behaviour along the Cardiff & Vale coastline has more than halved in the last two years, reduced by 55. Achieved the reduction despite the number of visitors to our coast returning to pre-pandemic levels this summer. As part of #OpElstree, we have also increased: patrols on foot, horse, quad bike and by boat (by 1,000+ hours); use of section 35 notices to move people on; CCTV van presence in key locations; use of safety bands to reunite missing children; fines for illegal parking, littering (1,800+) and joint educational events.

Rydym wedi sefydlu hyb cymunedol hygyrch yn Llanilltud Fawr sydd wedi helpu pobl hŷn yn y Fro Orllewinol i deimlo'n hapusach, yn iachach ac yn llai unig drwy eu cysylltu â'u cymuned, gwasanaethau cymorth a gweithgareddau cymdeithasol.

Fe wnaeth 97% o'n sefydliadau bwyd gyrraedd safonau hylendid bwyd, ac fe lwyddon ni i erlyn 7 safle bwyd oedd yn torri safonau bwyd. O'r holl adeiladau risg uchel a arolygwyd mewn perthynas â safonau masnach, cafodd 93% o'r achosion o dorri'r safonau eu cywiro. Gwnaethon ni ymchwilio i 428 o achosion o glefydau trosglwyddadwy a'u rheoli mewn cartrefi gofal, ysgolion, meithrinfeydd, a sefydliadau gofal cartref. Covid-19 oedd 368 o'r achosion hyn

Implemented an Anti-social Behaviour Early Prevention Programme for young people which has contributed to a 48.25% reduction in first time entrants into the criminal Justice system.

We have met our pledges to resettle Syrian and Afghan refugees as part of the UK Resettlement initiative. 73 people/families have been provided with a comprehensive package of support and assistance to resettle in the Vale of Glamorgan.

Gwnaethon ni recriwtio 13 o ofalwyr maeth newydd, 27 o ofalwyr sy'n berthnasau newydd a 2 ofalwr maeth rhieni a phlant, gan helpu i wella sefydlogrwydd o ran lleoliadau.

Cynyddwyd cwnsela yn yr ysgol ac yn y gymuned yn sylweddol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed sy'n cynnig opsiynau gwasanaeth digidol ac wyneb yn wyneb, gan gynnwys gwefan gwnsela yn yr ysgol mewn partneriaeth â Barnardo's.

Cyflwynwyd meddyginiaeth ddigidol yn Nhŷ Dyfan gyda gwaith yn cynyddu yn ein cartrefi gofal preswyl sy'n weddill.

Rydym ni wedi darparu sesiynau addysg a lles ychwanegol y tu allan i'r diwrnod ysgol i gefnogi plant yn y Barri ac ar hyn o bryd rydym yn cyflwyno hyn ym Mhenarth a'r Fro Orllewinol. Gwnaethon ni hefyd gynyddu cwnsela yn yr ysgol a'r gymuned ar gyfer plant sy'n agored i niwed, pobl ifanc a theuluoedd, a gwnaethon ni dreialu gwefan gwnsela yn yr ysgol ar y cyd â Barnardo's

Collaborated with key partners (via Operation Elstree) on a CCTV technology upgrade and the increased coverage will make everyone safer and lead to further reduction in crime and anti-social behaviour.

Wrth edrych ymlaen at 2023/24, ai dyma'r meysydd cywir i ganolbwyntio arny'n nhw?

Byddwn ni'n datblygu gwasanaethau i gefnogi pobl, byddwn ni'n fwy ystyriol o bobl hŷn ac yn fwy cydlynol o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwn ni'n parhau i weithio gyda phlant a'u teuluoedd ac yn ein hysgolion a'n gwasanaethau ieuencid gyda mwy o ffocws ar les disgyblion.

Beth ddwedoch chi

Roedd 33% (o'r 118 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ein bod wedi bodloni ein hymrwymadau CCB 2021/22 i ddiwallu anghenion preswylwyr sy'n agored i niwed a sicrhau bod gan bobl fynediad at wybodaeth, gofal a chymorth, gyda 31% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd 36% yn niwtral ynglŷn â'n cynnydd, ac yn gyffredinol, ystyriwyd, er bod rhai cyflawniadau yn bositif, bod angen i hygyrchedd i wybodaeth, cyngor amserol a chymorth yn gyffredinol wella. Cyfeiriodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r datganiad uchod at ddiffyg cyngor a gwybodaeth amserol i gefnogi preswylwyr yn ogystal â chymorth gyfyngedig i alluogi preswylwyr i aros yn eu cartrefi eu hunain am y tymor hir fel y prif resymau dros anghytuno â'n dyfarniad perfformiad.

Roedd 55% (o'r 20 aelod o staff a ymatebodd) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ein bod wedi bodloni ein hymrwymadau CCB 2021/22 i ddiwallu anghenion preswylwyr sy'n agored i niwed a sicrhau bod gan bobl fynediad at wybodaeth, gofal a chymorth, gyda 15% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. Roedd 30% yn niwtral ynglŷn â'n cynnydd. Cyfeiriodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno bod y Cyngor wedi bodloni ei ymrwymadau CCB 2021/22 mewn perthynas â Darparu Gofal a Chymorth at y ffaith bod rhestrau aros ar gyfer gofal a chymorth ar lefel digysail o uchel ond eto roedd lefelau staffio ar ei lefel isaf erioed, yn ei gwneud hi'n anodd delio â'r galw cynyddol am ein gwasanaethau.

Er bod canlyniadau'r arolwg ond yn rhoi cipolwg bach i ni ar sut rydym wedi perfformio mewn perthynas ag anghenion gofal a chymorth ein dinasyddion, mae'n rhoi cipolwg gwerthfawr i ni ar ddeall canfyddiad a barn y cyhoedd. Mae'n amlwg o ganfyddiadau'r arolwg bod rhai trigolion yn teimlo bod angen gwneud mwy wrth sicrhau ein bod yn gallu diwallu anghenion gofal a chymorth ein dinasyddion agored i niwed. Rhai meysydd allweddol a amlygwyd gan drigolion oedd yr angen i wella mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth amserol a gwella mynediad at gymorth a fydd yn galluogi ein preswylwyr i fyw gartref yn annibynnol am gyfnod hirach. Yng nghyd-destun galw cynyddol am ein gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth amserol yn hanfodol i sicrhau y gallwn ddarparu gofal a chymorth cyn gynted â phosib. Bydd cyfeirio ein dinasyddion i wasanaethau cymorth yn ein cymunedau yn elfen allweddol o hyn i sicrhau y gallwn ddatblygu dull mwy ataliol o ran sut mae anghenion ein dinasyddion yn cael eu diwallu ac osgoi eu hanghenion yn dod yn fwy cymhleth dros amser. Yng nghyd-destun Gwasanaethau Oedolion, mae datblygu ein Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer gwybodaeth a chyngor drwy ein Canolfan Gyswilt, defnyddio technoleg ddigidol i ddatblygu ffurflenni cyfeirio ar-lein a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu timau amlddisgyblaethol yn enghreifftiau o sut y gallwn ddatblygu dull mwy cyfannol o ddarparu mynediad cynnar ac amserol at wybodaeth, cyngor a chymorth i ddiwallu anghenion ein dinasyddion mewn modd rhagweithiol. Maes allweddol arall o ffocws a amlygwyd gan yr arolwg oedd yr angen am fwy o gymorth i alluogi preswylwyr i fyw'n annibynnol gartref am gyfnod hirach. Yn sgil y pandemig, rydym wedi gweld cynnydd mawr yn y galw am ofal yn y cartref. Mae'r galw am becynnau gofal cartref ar hyn o bryd yn fwy na'r cyflenwad sy'n rhoi pwysau ar ein gallu i ddiwallu anghenion preswylwyr. Un o'r meysydd allweddol o welliant wrth symud ymlaen fydd sut y gallwn ddatblygu ymhellach y capasiti gofal yn ein cymunedau trwy wella cyfleoedd i integreiddio ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni barhau i ganolbwyntio ar ddatblygu ein 'Model Cyngrair' ar gyfer integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â datblygu modelau eraill o gydweithio â'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu gwasanaethau integredig cynaliadwy sy'n barod at y dyfodol.

Roedd 89% (o'r 118 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Y meysydd yr awgrymwyd y dylid canolbwyntio'n benodol arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd:

- Gwella hygyrchedd i ofal plant i deuluoedd sy'n gweithio;
- Mynd i'r afael â materion cadw mewn gofal cymdeithasol er mwyn gwella parhad gofal i breswylwyr;
- Gwella'r cymorth i ddysgwyr mewn ysgolion yn enwedig oherwydd effaith y pandemig;
- Gwella lles cymunedol (ar gyfer pob oedran) gan gynnwys iechyd meddwl mewn ffordd gynaliadwy;
- Gwella mynediad at dai fforddiadwy a thai hygyrch;
- Dod yn sefydliad sy'n deall dementia;
- Cefnogi preswylwyr i aros gartref / byw yn annibynnol am fwy o amser;
- Mwy o gydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol;
- Gwella mynediad i wybodaeth a chynghor;
- Gwella cymorth i ofalwyr (sy'n derbyn tâl a rhai di-dâl);
- Gwella cymorth i bobl hŷn, y rhai sydd ag anableddau a phobl ifanc.

Roedd 100% (o'r 20 aelod o staff a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Y meysydd yr awgrymwyd y dylid canolbwyntio'n benodol arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd:

- Cynyddu gwasanaethau a chyfleoedd i bobl hŷn, pobl ifanc a phobl ag anableddau;
- Cynyddu lefelau staffio ar draws y Cyngor yn enwedig Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Ehangu a chyflwyno prosiectau cymunedol yn y Fro ehangach nid dim ond mewn ardaloedd wedi'u targedu;
- Gwella cymorth iechyd a lles i gael preswylwyr economaidd anweithgar yn ôl i'r byd gwaith gan ganolbwyntio ar feysydd lle mae prinder fel gofal.

Mae'r meysydd ychwanegol y dylid canolbwyntio arnynt yn ôl ymatebwyr mewn perthynas â 'Darparu Gofal a Chymorth' yn cwmpo'n fras o fewn y meysydd ffocws a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer y thema CCB hon, gan roi sicrwydd pellach i'n canfyddiadau hunanasesu a'n cyfeiriad arfaethedig ar gyfer 2023/24.

Ein casgliad yw, er gwaethaf yr heriau a'r cyfyngiadau yr ydym wedi'u hwynebu, ein bod wedi cyflawni ein hymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynnyddol ar gyfer 2021/22 mewn perthynas ag anghenion gofal a chymorth preswylwyr sy'n agored i niwed a sicrhau bod gan bobl fynediad at wybodaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwella mynediad amserol at wybodaeth, cyngor, cefnogaeth a gofal fel y gallwn ddiwallu anghenion dinasyddion yn rhagweithiol ar y cyfle cyntaf. Trwy weithio ar y cyd â'n partneriaid allweddol rydym yn hyderus y gallwn drawsnewid ein gwasanaethau mewn ffyrdd a fydd yn gwella lles defnyddwyr gwasanaethau a'n cymuned ehangach.

6.5 Gwella ein Seilwaith

Beth ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud

Dywedon ni y bydden ni'n gwella'r seilwaith ledled y Fro ac yn buddsoddi yn ein hysgolion a'n cymunedau.

Ein cyflawniadau

Gwella ein Seilwaith

Mae £18,738,499 o gyfraniadau wedi ei ymrwymo i gynlluniau ledled y Fro, gyda £5,576,157 yn cael ei wario ar gynlluniau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys trafndiaeth gyhoeddus, rhwydweithiau cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd, manau agored cyhoeddus a gwelliannau celf cyhoeddus

Cwblhawyd y rhaglen flynyddol o waith cadwraeth ar ein priffyrdd a gwaith gwella priffyrdd eraill, e.e. Promenâd, Pier a Phafiliwn Penarth

Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Fuddsoddi i gefnogi ein hadferiad a'n twf economaidd o Covid-19.

Cyflwynwyd 189 o unedau tai fforddiadwy yn y flwyddyn a sicrhawyd £469,874 pellach hefyd o ran cyfraniadau tai fforddiadwy Adran 106 sydd wedi cefnogi gwaith gyda phartneriaid i gynyddu'r cyflenwad o dai Fforddiadwy yn y Fro.

Gweithiwyd gyda phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymu a Maes Awyr Caerdydd i sicrhau arian i gefnogi twf masnachol o fewn ffin yr Ardal Fenter gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu safle coleg newydd yn y maes awyr.

Rydyn ni wedi cyfnewid contractau â Choleg Caerdydd a'r Fro ar ddatblygu coleg yng Nglannau'r Barri, yn datblygu gwaith dylunio manwl ar y cynllun ac wedi dechrau ar waith a fydd yn trawsnewid y BSC2 yn y Barri yn swyddfa a chyfleuster hamdden

Sefydlwyd rhaglen fuddsoddi yn ein holl Ganol Trefi gan ganolbwyntio ar eu hadfywio gan gynnwys cynlluniau plannu canol trefi, trwyddedau 'caffi' newydd sydd eisoes wedi gweld mwy o ddi-ddordeb a cheisiadau, gosod cyfrifwyr nifer yr ymwelwyr clyfar a threfnu digwyddiadau rhwydweithio busnes. Dechreuon ni hefyd uwchgynllun gofodol newydd ar gyfer y Barri sy'n canolbwyntio ar gysylltu canol y dref â'r glannau a gwelliannau eraill.

Fe wnaethon ni wella adeiladau ysgol yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, Ysgol Gynradd Trwyn y De, Canolfan Adnoddau ADY Whitmore, Canolfan Adnoddau ADY Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Ysgol Uwchradd Pencoedtré ac Ysgol Uwchradd Whitmore.

Wrth edrych ymlaen at 2023/24, ai dyma'r meysydd cywir i ganolbwyntio arny'n nhw?

Byddwn yn adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, yn adeiladu cartrefi cyngor newydd, yn buddsoddi yn ein hysgolion ac yn cefnogi canol ein trefi, ac yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd byddwn yn canolbwyntio ar gynllunio, trafndiaeth a datblygu economaidd ledled De-ddwyrain Cymru.

Beth ddwedoch chi

Roedd 38% (o'r 122 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ein bod wedi bodloni ein hymrwymadau CCB 2021/22 i wella seilwaith ar draws y Fro. Roedd 29% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'n dyfarniad a 33% yn niwtral am ein cynnydd. Nododd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'n dyfarniad nad oedd digon o fuddsoddiad mewn ysgolion, cyfleusterau cymunedol lleol, trafndiaeth gyhoeddus a'r rhwydwaith priffyrdd fel y rhesymau dros y farn hon. Roedd yna farn hefyd bod mwy o ddatblygiadau tai na gwelliannau seilwaith sy'n rhoi straen pellach ar leoedd mewn ysgolion, iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau lleol eraill.

Roedd 40% (o'r 20 aelod o staff a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ein bod wedi bodloni ein hymrwymadau CCB 2021/22 i wella seilwaith ar draws y Fro. Roedd 25% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'n dyfarniad a 35% yn niwtral am ein cynnydd. Y prif resymau a nodwyd gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'n dyfarniad bod y Cyngor wedi bodloni ei ymrwymadau ADP 2021/22 mewn perthynas â gwella seilwaith oedd cyflwr gwael rhwydwaith priffyrdd y Fro gan gynnwys maint a llif traffig, diffyg buddsoddiad mewn seilwaith gwyrdd i gyfrannu tuag at Prosiect Sero a mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a'r angen am dai mwy fforddiadwy / tai Cyngor.

Mae isadeiledd yn chwarae rôl hollbwysig wrth gefnogi cymunedau lleol a'r economi leol. Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur ac addasu i'w effaith, rydym yn gwybod bod rhaid i ni fuddsoddi yn ein seilwaith gwyrdd oherwydd dim ond gyda buddsoddiad o'r fath fydd twf yn y dyfodol yn wirioneddol gynaliadwy a sicrhau canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol i'n dinasyddion. Er gwaethaf y rhagolygon ariannol heriol, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig ac yn buddsoddi mewn ffyrdd arloesol ledled y Fro i sicrhau cynaliadwyedd ein hasedau tra'n sicrhau manteision cymunedol a lles ein dinasyddion, e.e. Pafiliwn a Phromenâd Penarth. O ystyried yr heriau cyllido, mae ffocws penodol ar wneud y gorau o'n defnydd o rwymedigaeth Adran 106 a chynllunio arian i fuddsoddi yn ein blaenoriaethau gan gynnwys gwyrddio ein hysgolion, gwella cyfleusterau teithio llesol, gwella'r mannau gwyrdd presennol a chreu mannau gwyrdd newydd, cynyddu tai fforddiadwy drwy ein rhaglen adeiladu tai a chreu cyfleusterau cymunedol newydd a gwella cyfleusterau cymunedol presennol. Mae barn y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod ymgysylltu â'r gymuned yn parhau i fod yn rhan annatod o'n proses gwneud penderfyniadau gan ddod â'n dinasyddion gyda ni ar y daith honno tuag at greu lleoedd gwyrddach, mwy gwydn a chynaliadwy i bobl fyw a gweithio ynddynt.

Roedd 78% (o'r 122 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Y meysydd yr awgrymwyd y dylid canolbwyntio'n benodol arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd:

- Cynyddu nifer y tai fforddiadwy a'r mynediad at gartrefi fforddiadwy a llety byw â chymorth;
- Lleihau datblygiad ar safleoedd tir glas a chanolbwyntio ar ailddefnyddio ein safleoedd tir llwyd;
- Sicrhau bod datblygiadau hefyd yn buddsoddi mewn cyfleusterau lleol a seilwaith teithio llesol;
- Gwella trafndiaeth gyhoeddus integredig a chysylltedd;
- Buddsoddi'n decach mewn cymunedau ledled Bro Morgannwg, nid dim ond yn Y Barri.

Roedd 90% (o'r 20 aelod o staff a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Y meysydd yr awgrymwyd y dylid canolbwyntio'n benodol arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd:

- Gwella rhwydwaith priffyrdd y Fro;

- Integreiddio a chysylltedd seilwaith gwyrdd / glas y dylid ei ystyried ar y camau cynharaf o gynllunio a datblygu prosiectau. Byddai hyn yn sicrhau bod digon o le, cyllid ac amser yn cael ei roi i'w weithredu'n briodol fel elfen sylfaenol o'r cyfan a wnawn fel awdurdod;
- Ailddatblygu safleoedd tir llwyd presennol i'w gwneud yn fwy apelgar i'r cyhoedd;
- Adeiladu mwy o gartrefi Cyngor a galluogi datblygwyr cymdeithasol a phreifat i gynyddu nifer y cartrefi y maen nhw'n eu hadeiladu yn sylweddol, mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r meysydd ychwanegol y dylid canolbwyntio arnynt yn ôl ymatebwyr mewn perthynas â 'Gwella ein Seilwaith' yn cwmpo'n fras o fewn y meysydd ffocws a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer y thema CCB hon, gan roi sicrwydd pellach i'n canfyddiadau hunanasesu a'n cyfeiriad arfaethedig ar gyfer 2023/24.

Ein casgliad yw ein bod ni, ar y cyfan, wedi cyflawni ein hymrwymiaidau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 mewn perthynas â gwella ein seilwaith lleol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n defnyddwyr gwasanaeth, dinasyddion a chymunedau yn y sgwrs newid yn yr hinsawdd i sicrhau ein bod yn buddsoddi yn y seilwaith cywir, ar y cyflymder cywir i gefnogi ein nodau newid yn yr hinsawdd a sicrhau canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol i bawb.

6.6 Trawsnewid y ffordd rydyn ni'n gweithio

Beth ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud

Dywedon ni y bydden ni'n newid y ffordd rydyn ni'n gweithio ac yn bwrw ymlaen â phrosiectau arloesol ar draws yr holl wasanaethau, gan wella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Ein cyflawniadau

Trawsnewid y ffordd rydyn ni'n gweithio

Drwy ein Cronfa Cymunedau Cryf, rydyn ni wedi cefnogi 26 o grwpiau / sefydliadau a arweinir gan gymunedau'n ariannol gyda phrosiectau sydd wedi bod o fudd i'r cymunedau a chyfrannu tuag at ein Hamcanion Lles. O'r 120 o geisiadau llwyddiannus hyd yma, mae 22 o wardiau wedi elwa o £1.127m o gyllid. Mae buddion cymunedol yn cynnwys: Benthg symudol yn y Fro; adnewyddu neuadd sgowtiaid yn y Rhws, brandio a hysbysebu ar gyfer grŵp cymorth Metalidads; prosiect gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd gyda Chyngor Cymuned Llanbedr-y-fro; gwell offer chwarae wrth gofeb y Brenin Siôr V yn Llandochau; ymestyn ac adnewyddu llyfrgell gymunedol y Rhws; adnewyddu cegin Clwb Bowlio Romilly; adnewyddu neuadd pentref Aberthin; adnewyddu cawodydd a tholedau clwb criced y Fro a llawer mwy.

Rydyn ni wedi cwblhau cam cyntaf y broses o drosglwyddo safleoedd chwaraeon awyr agored yn llwyddiannus, gyda phob clwb bowlio bellach yn gweithredu'n annibynnol ar y Cyngor. Rydyn yn symud ymlaen yng ngham nesaf y trosglwyddiadau sy'n cynnwys clybiau rygbi, gyda Chlwb Rygbi'r Barri y cyntaf i gael ei drosglwyddo, tra bod trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Chlwb yr Old Penarthians a Chlwb Athletau Penarth. Bydd hyn yn helpu i leihau costau gweithredu i'r Cyngor ac i sicrhau cynaliadwyedd y cyfleusterau hyn i'n cymunedau.

Yn unol â'n hymrwymiad i annog mwy o gyfranogiad dinasyddion i lywio ein penderfyniadau, datblygwyd cronfa ddata ymgysylltu â'r cyhoedd a chalendr dreigl o weithgareddau ochr yn ochr â phorth 'Cyfranogiad y Fro' newydd ar gyfer e-ddeisebau a gweithgareddau ymgysylltu. Mae hyn yn ein galluogi i gael mewnwelediadau i ganfyddiadau'r cyhoedd a mewnwelediadau i berfformiad a data arall i wella a llywio ein penderfyniadau.

Rydyn ni wedi adolygu'r defnydd o'n swyddfeydd at y dyfodol, gyda'r prosiect Eich Lle - Your Space yn dod â strategaeth ar gyfer swyddfeydd ac ystyriaethau digidol a phobl ynghyd i sicrhau bod dull strategol yn cael ei weithredu ar gyfer y maes gwaith hwn.

Gweithredwyd cam cyntaf prosiect mawr i wella profiad cwsmeriaid yn ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid. Mae hyn wedi ychwanegu offer newydd fel defnyddio mapiau i nodi lleoliadau digwyddiadau, y gallu i greu cyfrif fel y gall trigolion olrhain cynnydd ar eu trafodion gyda ni a gwell cyfathrebu dros e-bost er mwyn sicrhau bod trigolion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r rhain i gyd wedi gwneud ymdrin â'r Cyngor ar-lein yn haws.

Rydyn ni wedi buddsoddi mewn amrywiaeth o lwyfannau digidol i'w defnyddio ochr yn ochr â rhyngweithio wyneb yn wyneb i wella ein cyrhaeddiad a'n hymgysylltu â dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth, dysgwyr a phartneriaid.

Wrth edrych ymlaen at 2023/24, ai dyma'r meysydd cywir i ganolbwyntio arny'n nhw?

Byddwn ni'n gweithio'n fwy gyda'r gymuned i fod yn fwy cydlynol ac i wneud gwell defnydd o dechnoleg, ein hadeiladau a'n gweithlu i wella ein gwasanaethau.

Beth ddwedoch chi

Roedd 29% (o'r 121 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ein bod wedi bodloni ein hymrwymadau CCB 2021/22 i drawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithio. Roedd 50% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'n dyfarniad a 21% yn niwtral am ein cynnydd. Cyfeiriodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'n dyfarniad at ddiffyg arloesedd mewn gwasanaethau yn gyffredinol, cyfathrebu gwael, diffyg atebolrwydd, amcanion a thargedau annelwig, amseroedd ymateb i gwsmeriaid gwael a effeithiwyd gan ddarpariaeth o bell a hygyrchedd gwael i wasanaethau i'r rhai nad ydynt yn dda gyda thechnoleg fel y prif resymau dros anghytuno. Nododd nifer o'r ymatebwyr hefyd y byddai'n ddefnyddiol rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth drwy gydol y flwyddyn ar ein perfformiad a'n cyflawniadau.

Roedd 40% (o'r 20 aelod o staff a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno ein bod wedi bodloni ein hymrwymadau CCB 2021/22 i drawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithio. Roedd 15% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'n dyfarniad a 45% yn niwtral am ein cynnydd. Nododd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'n dyfarniad nad oedd digon o gefnogaeth i wella effeithlonrwydd systemau a phrosesau, dirywiad gwasanaethau, diffyg adnoddau staff i gyflawni prosiectau a diffyg uchelgais gan y Cyngor o ran maint yr arloesedd sydd ei angen.

Yn wyneb rhagolygon ariannol heriol, chwyddiant a phwysau o ran galw, disgwyliadau uwch gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol wrth ddod yn fwy arloesol wrth ail-lunio ei wasanaethau i ddiogelu gwasanaethau lleol gwerthfawr tra'n gweithio tuag at sicrhau adferiad gwyrdd cynaliadwy o'r pandemig. Mae hyn yn diriogaeth newydd ac er nad oes un 'ffordd gywir' o wneud pethau, rydym yn cydnabod rôl bwysig defnyddwyr gwasanaeth, ein dinasyddion a'n cymunedau wrth wireddu'r nod hwn. Adlewyrchir cymhlethdod yr heriau hyn ym marn a disgwyliadau'r ymatebwyr. Rydym yn cydnabod mai mewn cyfnod heriol y mae cyfle am newid sylfaenol wrth feddwl am sut rydym yn gweithredu er mwyn diogelu a diogelu'r gwasanaethau sy'n bwysig i'n dinasyddion yn y dyfodol. Rydym yn gweithio ar wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dinasyddion o'r broses o wneud penderfyniadau a chynyddu cyfleoedd iddynt gymryd rhan yn y broses honno a'i llywio'n effeithiol. Drwy ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, rydym hefyd yn ail-lunio sut rydym yn ymgysylltu â dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau gan ganolbwyntio ar ddeall a meithrin gallu fel y gallwn greu atebion ar y cyd i fynd i'r afael â materion cymunedol a nodwyd a hefyd i helpu i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr mewn modd cynaliadwy.

Roedd 88% (o'r 121 o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Y meysydd yr awgrymwyd y dylid canolbwyntio'n benodol arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd:

- Gwneud gwefan y Cyngor yn haws i ddefnyddwyr;
- Gwella ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned;
- Mynd i'r afael ag allgáu digidol a sicrhau bod opsiynau dal ar gael i bobl gael mynediad at wasanaethau, yn enwedig y genhedlaeth hŷn;
- Bod yn fwy penodol ynglŷn â blaenoriaethau'r Cyngor a sut y byddwn ni'n mesur llwyddiant fel y gall pobl farnu a ydyn nhw wedi cael eu cyflawni;
- Cryfhau'r berthynas â chynghorau cymuned a sicrhau eglurder ynghylch disgwyliadau o ystyried yr heriau ariannol;
- Gwella dealltwriaeth y gymuned o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud, yr hyn y bydd yn ei wneud a'r hyn na all ei wneud a hyrwyddo diwylliant 'hunangymorth' o fewn cymunedau;
- Defnyddio technoleg newydd mewn ffordd bersonol, symud i ffwrdd o'r model canolfan alwadau;
- Gwella ymateb ac ansawdd gwasanaethau drwy gael staff yn ôl i'r swyddfeydd.

Roedd 85% (o'r 20 aelod o staff a ymatebodd i'r arolwg) yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2023/24. Y meysydd yr awgrymwyd y dylid canolbwyntio'n benodol arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod oedd:

- Gwneud gwella gwasanaethau yn flaenoriaeth cyn ceisio buddsoddi mewn adeiladau a thechnoleg;
- Datblygu a chynnig mwy o wasanaethau ar-lein tra'n cydnabod bod rhaid i ni hefydwella mynediad i wasanaethau i'r rhai sydd wedi eu heithrio'n ddiigidol fel pobl hŷn;
- Cynyddu adnoddau staff i drawsnewid gwasanaethau a darparu prosiectau.

Mae'r meysydd ychwanegol y dylid canolbwyntio arnynt yn ôl ymatebwyr mewn perthynas â 'trawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithio' yn cwmpo'n fras o fewn y meysydd ffocws a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer y thema CCB hon, gan roi sicrwydd pellach i'n canfyddiadau hunanasesu a'n cyfeiriad arfaethedig ar gyfer 2023/24.

Ein casgliad yw ein bod ni, ar y cyfan, wedi cyflawni ein hymrwymadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 mewn perthynas â sut rydym yn trawsnewid y ffordd yr ydym yn gweithio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen i ni ailfeddwl yn llwyr sut rydym yn gweithredu a bod yn fwy arloesol yn ein dull gweithredu os ydym am lwyddo i ddiogelu at y dyfodol y gwasanaethau sy'n bwysig i'n dinasyddion. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i drawsnewid ein gwasanaethau mewn ffordd gydweithredol sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau, cymunedau a phartneriaid i'n galluogi i greu ar y cyd a darparu modelau gwasanaeth cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

7.0 Sut rydyn ni'n defnyddio ein hadadnoddau

Y sgôr gyffredinol ar gyfer 'sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau' yw DA

Mae ein dull cynllunio corfforaethol integredig yn amlinellu cyfres o alluogwyr corfforaethol sy'n ein cefnogi i gyflawni ein hymrwymiaid yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) fel sy'n cyd-fynd â'n Hamcanion Lles yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r galluogwyr hyn yn cynnwys asedau, cyllid (gan gynnwys caffael a chomisiynu), pobl a pherfformiad. Mae gennym hefyd fecanweithiau cynllunio a rheoli risg integredig sy'n ein cefnogi i gyflawni canlyniadau, gan sicrhau llywodraethu ac atebolrwydd da. Yn unol â gofynion deddfwriaethol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae angen cynnal hunanasesiad yn flynyddol ar draws y cyngor i ddangos dealltwriaeth glir a hunanymwybyddiaeth o'r ffordd yr ydym yn cymhwyso'r 5 ffordd o weithio [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015] mewn perthynas â'r galluogwyr corfforaethol er mwyn nodi'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn dda, y canlyniadau rydyn ni'n eu cyflawni a'r meysydd rydyn ni angen eu gwella.

I lywio'r gwaith hwn, cynhaliwyd hunanasesiadau ar draws pum cyfarwyddiaeth y Cyngor, sydd wedi galluogi hunanasesiad mwy cyfannol gyda dyfarniadau gwybodus ar draws pob galluogwr, gyda gwybodaeth am gyfraniadau gwasanaeth. Mae'r datganiadau sefyllfa hyn wedi darparu asesiad sylfaenol o sut rydym yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio i wneud y gorau o'n defnydd o adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiaid CCB fel sy'n cyd-fynd â'n Hamcanion Lles yn y Cynllun Corfforaethol. Maent hefyd yn nodi heriau a blaenoriaethau cyfarwyddiaethau a gwasanaethau ar gyfer y tymor byr, ac ar gyfer y tymor chanolig i'r tymor hir.

Mae canfyddiadau hunanasesiadau'r Cyfarwyddiaethau wedi bod yn destun her 'cyfaill beirniadol' mewnol yn cynnwys Cyfarwyddwr Cyflwyno, Cyfarwyddwr Cyfoedion, Aelod(au) Cabinet a Chadeirydd(ion) Pwyllgor Craffu perthnasol yn seiliedig ar bortffolios a chylch gwaith pwyllgor perthnasol. Ar y cyfan, argymhellwyd newidiadau i'r sgorau / dyfarniadau a neilltuwyd gan un Cyfarwyddiaeth (uwchraddiodd Amgylchedd a Thai ei sgorau 'pobl' ac 'asedau' o 'gweddol' i 'da' ar sail trafodaethau) yn dilyn yr her fewnol gan gymheiriaid. Roedd holl sgorau hunanasesiadau Cyfarwyddiaethau yn destun ymarfer cymedroli pellach yn cynnwys Arweinydd Gweithredu y Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol i sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu ac ni wnaed unrhyw argymhellion pellach i'r sgorau a gymeradwywyd. Mae'n bwysig bod ein dull o hunanasesu yn parhau i esblygu, a byddwn yn parhau i adolygu ein dull gweithredu a gaiff ei lywio gan y dysgu ac unrhyw arfer gorau a nodwyd gan gydweithwyr ledled Cymru yn y flwyddyn gyntaf hon o fodloni'r gofynion perfformiad newydd.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau hunanasesiadau'r Cyfarwyddiaethau, rydym wedi priodoli sgôr ar draws y cyngor o 'Da' i adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol hyd yma yn ein dull integredig o ddefnyddio mewnwelediadau data, ymgysylltu, asedau, pobl, cyllid a rheoli perfformiad a risg i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein Hamcanion Lles yn y Cynllun Corfforaethol. Mae cymhwyso'r pum ffordd o weithio i'r galluogwyr corfforaethol hyn wedi ein galluogi i adnabod y meysydd ar draws y Cyngor lle rydym yn gwneud yn dda a'r meysydd hynny lle mae angen i ni wreiddio ymhellach y ffordd hon o weithio er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein siawns o gyflawni ein Hamcanion Lles a'n cyfraniad at y nodau cenedlaethol. Mae'r tabl isod yn cyfuno [Sgorau'r Cyfarwyddiaethau](#) ar gyfer ein galluogwyr corfforaethol i ddyfarniad cyffredinol ar gyfer y Cyngor.

Galluogwyr corfforaethol: Crynodeb Cyngor Cyffredinol	Sgôr
Pa mor dda ydyn ni'n rheoli ein hasedau?	Da
Pa mor dda ydyn ni'n rheoli ein pobl?	Da
Pa mor dda ydyn ni'n rheoli ein cyllid, comisiynu a chaffael?	Da
Pa mor dda ydyn ni'n perfformio ac yn rheoli ein risgiau?	Da
Pa mor dda ydyn ni'n ymgysylltu ac yn defnyddio mewnwelediadau ymgysylltu?	Da
Y sgôr gyffredinol ar gyfer 'sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau'	DA

7.1 Cyflawniadau

Mae crynodeb o'n prif gyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf ar draws themâu allweddol Pobl, Cyllid (sy'n cynnwys caffael a chomisiynu), Asedau, Rheoli Perfformiad ac Ymgysylltu a Mewnwelediad wedi'i amlinellu isod.

Ymgysylltu a Mewnwelediad

- Rydym wedi cryfhau sut rydym yn ymgysylltu â'n partneriaid allweddol, dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth, dysgwyr a'n cymunedau wrth lunio gwasanaethau, e.e. y gwasanaeth celfyddydau, dysgu oedolion a chymunedol, gwasanaethau tenantiaid y cyngor, a nifer o brosiectau gwella cymunedol.
- Rydym wedi rhyngweithio â dinasyddion mewn ffyrdd arloesol drwy ystod amrywiol o opsiynau cyfathrebu a chyngor ee. tudalennau gwe rhyngweithiol, e-ffurflenni ac apiau ar gyfer anghenion gwasanaeth penodol.
- Rydym wedi canolbwyntio o'r newydd ar gynnwys llais pobl ifanc ym mhob agwedd ar fusnes y cyngor.
- Datblygwyd cronfa ddata ymgysylltu â'r cyhoedd a mabwysiadwyd porth 'Cyfranogiad yn y Fro' ar gyfer e-ddeisebau a gweithgareddau ymgysylltu.
- Rydym wedi gwella adnoddau gwirfoddoli ymhellach i gefnogi darparu gwasanaethau'r cyngor a mentrau cymunedol yn y dyfodol, e.e. Barry Action for Nature, Cymdeithas Ddinesig Penarth a Chyfeillion Traethau'r Barri.
- Rydym wedi adeiladu ar ddulliau cydweithredol llwyddiannus a sefydlwyd yn ystod y pandemig gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a gwirfoddol e.e. partneriaethau newydd wedi'u cyd-gynllunio â'n cymunedau i fynd i'r afael â thlodi bwyd a heriau eraill fel newid yn yr hinsawdd.

Perfformiad a Risg

- Rydym wedi cryfhau'r berthynas gyda'n partneriaid mewn ymateb i hinsawdd ariannol heriol ac i gydnabod y gwerth y gall gweithio mewn partneriaeth i rannu adnoddau, sgiliau, arbenigedd a phrofiad ei gael wrth fynd i'r afael â materion cymhleth.
- Rydym wedi cynnal ein hymateb diogelu yn wyneb heriau sylweddol o ran y gweithlu a'r gwasanaeth.
- Rydym wedi sicrhau defnydd effeithiol o'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i gefnogi gwella ysgolion a lles disgyblion.
- Rydym wedi sicrhau bod ysgolion yn gwneud cynnydd gyda'r cwricwlwm newydd er gwaethaf heriau'r flwyddyn ddiwethaf

Pobl

- Fe wnaethon ni sicrhau bod ein gweithlu'n gallu cael ei addasu at ddibenion gwahanol drwy gydol y pandemig i ddarparu gwasanaethau rheng flaen allweddol er gwaetha'r heriau sylweddol.
- Fe wnaethon ni fynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â'n gweithlu ar uwchsgilio i ddiwallu anghenion busnes presennol ac at y dyfodol, gan ddatblygu diwylliant digidol a chefnogi eu lles.
- Fe wnaethon ni gynyddu gwydnwch ar draws ein gwasanaethau drwy nodi a datblygu talent yn ein gweithlu yn llwyddiannus i lenwi rolau hanfodol i fusnes.
- Rydym wedi llwyddo i gyflawni amrywiaeth o brosiectau cymunedol mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr, bod o fudd i gymunedau, gwella sgiliau lleol a chodi proffil y Cyngor a chyfluoedd gyrafol yn y Cyngor.
- Rydym wedi addasu ein gweithlu at ddibenion gwahanol mewn ymateb i sefyllfaoedd brys, gan sicrhau parhad gwasanaethau hanfodol a lles a diogelwch trigolion.

Cyllid

- Er gwaethaf effaith ariannol sylweddol, rydym wedi rheoli ein hadnoddau'n effeithiol gan sicrhau ein bod wedi dechrau 2022/23 mewn sefyllfa ariannol fwy gwydn.
- Rydym wedi gweinyddu cynlluniau grantiau Covid-19 Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus sydd wedi cefnogi busnesau a'n cymunedau trwy gyfnod anodd.
- Mae goruchwyliaeth ariannol gadarn o gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol a dull ataliol o flaenoriaethu cyllideb wedi sicrhau ein bod wedi gallu mantoli'r gyllideb dros y degawd diwethaf.
- Rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid cyfalaf a reffeniw allanol yn llwyddiannus i gefnogi ein cymunedau a'n busnesau a buddsoddi yn ein hasedau adfywio.

Asedau

- Rydym wedi gwario £5.6m ar gynlluniau cymunedol gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus, rhwydweithiau cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd, manau agored cyhoeddus a gwelliannau celf cyhoeddus.
- Rydym wedi ymrwymo £18.74m i gynlluniau a fydd yn cefnogi gwelliannau yn ein seilwaith economaidd i'r dyfodol.
- Rydym wedi cyflawni'r gwaith adnewyddu ar Bier a Phromenâd Penarth, a llyfrgell Penarth.
- Rydym wedi gwella adeiladau ysgol a darparu ysgolion newydd ym Mhenarth, Trwyn y De a Dewi Sant.
- Rydym wedi ail-fuddsoddi elw dros ben o'r Big Fresh Catering i'n hysgolion a'n cynlluniau cymunedol lleol gan gynnwys gwerth £500k o gynlluniau incwm newydd i ysgolion.
- Rydym wedi defnyddio ein hasedau'n effeithiol mewn ffordd arloesol a gwahanol i gynnal parhad gwasanaeth yn ystod y pandemig e.e. defnyddio teledu cylch cyfng i leihau digwyddiadau diogelwch cymunedol, addasu canolfannau hamdden at ddibenion gwahanol fel canolfannau brechu a phrofi, defnyddio ein gwasanaeth Greenlinks i gludo dinasyddion i ganolfannau brechu ac yn ôl.
- Cafodd 189 o unedau tai fforddiadwy eu darparu, gyda £470K pellach o gyfraniadau tai fforddiadwy A106 wedi eu sicrhau ar gyfer prosiectau newydd.
- Dechreuwyd adeiladu 67 o unedau tai yn y Barri a Phenarth fel rhan o'n Rhaglen Adeiladu Tai Cyngor, gyda chontractau wedi'u cyfnewid ar gyfer 32 arall yn y Barri.
- Rydym wedi cynnal ein buddsoddiad mewn seilwaith digidol a chyflymu ein trawsnewidiad digidol ar draws pob gwasanaeth sydd wedi gwella hygyrchedd gwasanaeth a'n prosesau gweinyddol.
- Rydym wedi lleihau nifer y manau gwag a chynyddu bywiogrwydd yng nghanol ein trefi trwy amrywiaeth o gynlluniau buddsoddi.
- Cwblhawyd cam cyntaf y broses o drosglwyddo safleoedd chwaraeon awyr agored yn llwyddiannus, gyda phob clwb bowlio bellach yn gweithredu'n annibynnol ar y Cyngor.
- Mae 22 o wardiau a 26 grŵp cymunedol a sefydliadau wedi elwa o £1.127m o gyllid i gefnogi asedau lleol fel rhan o'n Cronfa Cymunedau Cryf.

7.2 Heriau, risgiau a chyfleoedd

Mae crynodeb o'n heriau allweddol a'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg wedi'i amlinellu isod

Pobl

- Capasiti cyfyngedig o bartneriaid a'n gweithlu i fwrw ymlaen â'r agenda integreiddio gofal cymdeithasol ac iechyd.
- Recriwtio a chadw mewn swyddi sy'n hanfodol i fusnes ar draws gweithlu'r Cyngor.
- Costau hirdymor sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar staff asiantaeth mewn gwasanaethau allweddol lle mae'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen yn brin yn lleol ac yn genedlaethol.
- Cynyddu amrywiaeth a denu a chadw gweithlu iau.
- Mae lles ac iechyd meddwl staff yn parhau i fod yn bryder allweddol yn enwedig oherwydd bod mwy o weithio o bell ac ystwyth yn digwydd.
- Mae angen cryfhau ymhellach y polisiau sy'n sail i weithio ystwyth a hyblyg a rheoli amser er mwyn sicrhau tegwch i bawb. Mynd i'r afael â materion llwyth gwaith / capasiti a lleihau lefelau presenoliaeth ar draws ein gweithlu.
- Mae newidiadau i gyllid grant ar lefel genedlaethol wedi gwaethgu ein heriau recriwtio a gwydnwch rhai o wasanaethau'r Cyngor.
- Mae angen cymryd agwedd hirdymor at ddatblygu sgiliau digidol ein gweithlu sy'n cyd-fynd â ffyrdd newydd o weithio a thechnolegau newydd.

Finance

- Mae ein gallu i gymryd golwg tymor hwy wrth fynd i'r afael â materion systemig a nodwyd yn parhau i gael eu llesteirio gan y ffordd tymor byr yr ydym yn cael ein hariannu.
- Anallu i wneud buddsoddiadau strategol ar sut y bydd gwasanaethau critigol yn cael eu hariannu yn y dyfodol, yn seiliedig ar ddefnydd achlysurol Llywodraeth Cymru o wahanol ffrydiau ariannu.
- Mae natur tymor byr ac ansicrwydd ynghylch ariannu yn herio ein gallu i gynllunio a datblygu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd integredig cynaliadwy.
- Mae methiant y darparwr yn parhau i fod yn bryder parhaus yn y sector gofal cymdeithasol.
- Pryderon sylweddol o ran breuder y farchnad gofal cymdeithasol allanol o ran capasiti a gallu i ymateb i'r galw cynyddol tra'n delio â phwysau cynyddol o ran y gweithlu a chostau byw

- Heriau sylweddol o ran adnoddau yn sgil newidiadau i gyllid grantiau yn dilyn Brexit a'r dull cymhleth a darniog o ran ffrydiau ariannu newydd Llywodraeth y DU.
- Mae cytundeb cyflenwi a reolir yn dynn gyda Llywodraeth Cymru ar broses Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn agor y Cyngor i risg pellach os bydd llithriad.
- Mae'n debygol y bydd nifer y dysgwyr sydd angen cymorth yn cael goblygiadau hirdymor o ran adnoddau.
- Bydd y dyletswyddau estynedig yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a fydd yn berthnasol i'r Blynyddoedd Cynnar ac ôl-16 yn rhoi pwysau sylweddol ar ein hadnoddau yn y dyfodol.
- Cynaliadwyedd y ffyrdd newydd o weithio a modelau darparu gwasanaethau a fabwysiadwyd mewn ymateb i Covid-19.
- Bydd cynnal y lefelau gofynnol o fuddsoddi mewn seilwaith technoleg ddigidol gan gynnwys uwchsgilio'r gweithlu yn cyflwyno heriau o ran adnoddau o ystyried cyflymder technoleg.
- Gwydnwch ariannol ysgolion i ymateb i'r heriau wrth gefnogi disgyblion i ddal i fyny, ochr yn ochr â'r galw cynyddol am anghenion dysgu ychwanegol a gwasanaethau i fodloni lles cymdeithasol, emosïynol a meddyliol dysgwyr.
- Bydd heriau parhaus sy'n gysylltiedig â'r pandemig, ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, y rhyfel yn Wcráin a'r sioc economaidd o gostau byw cynyddol yn parhau i effeithio'n negyddol ar lawer o wasanaethau a phrosiectau mawr y Cyngor.
- Yn 2021/22, fe wnaethom orwario ein cyllideb gan £1m wrth ddarparu gwasanaethau gwastraff, yn rhannol oherwydd y cynnydd mewn costau prosesu gwastraff a thanwydd. Mae'r heriau'n parhau oherwydd yr ansicrwydd ynghylch Covid-19, Brexit a'r rhyfel parhaus yn Wcráin.
- Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn parhau i fod o dan bwysau aruthrol o ran y galw am wasanaethau.
- Sicrhau bod digon o staff i gynnal y broses o ddarparu gwasanaethau tra'n parhau i ddiwallu anghenion gofal cymdeithasol a chymorth cynyddol ein dinasyddion.
- Mae'r galw am Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc wedi codi gyda nifer cynyddol o blant sy'n Derbyn Gofal ag anghenion cymhleth sy'n arwain at mwy o alw am leoliadau na'r hyn sydd ar gael.

Ymgysylltu a Mewnwelediad

- Mae angen rheoli disgwyliadau cyhoeddus wrth ymgysylltu, gweithio gyda a darparu gwasanaethau i'n cymuned gyda llai o gyllid a llai o adnoddau ar gael i ni.
- Mae angen datblygu dull corfforaethol o ran gwirfoddoli / cynnwys y gymuned er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd gwirfoddol yn effeithiol.
- Cyflawni ein hymrwymiad i fod yn sefydliad sy'n gwrandao, yn gyson â'n Rhaglen Ail-lunio a'n Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd.
- Mynd i'r afael â heriau ymgysylltu a defnyddio rhaglen dreigl ragweithiol o weithgareddau gyda rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth.

Asedau

- Bydd cynnal gwasanaethau yn unol â disgwyliadau cyhoeddus cynyddol ar gyfer dysgu digidol / o bell a darparu gwasanaethau yn heriol o fewn yr adnoddau presennol.
- Datblygu a chynnal y buddsoddiad, yr arloesedd a'r ffocws ar y camau gweithredu sydd eu hangen dros y blynyddoedd nesaf er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau Prosiect Sero a chyfrannu at Gymru sero net erbyn 2050.
- Mae angen Datblygu Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer ein hasedau gan ganolbwyntio ar sero net / carbon isel a chynaliadwyedd hirdymor. Gwella cydweithio â rhanddeiliaid allweddol ac ymgysylltu â chymunedau i nodi cyfleoedd i gefnogi datgarboneiddio ein hasedau a darparu prosiectau mawr.
- Mae angen adolygu ein polisiau ac arferion, gan ganolbwyntio ar ymgorffori dull ataliol a thymor hir o gaffael i gefnogi ein huchelgeisiau datgarboneiddio a sicrhau cynaliadwyedd y gadwyn gyflenwi.

Perfformiad a Risg

- Rheoli costau etifeddiaeth y pandemig a'n hymateb a'n hadferiad parhaus o ran llywodraethu, ein gweithrediadau, gwneud penderfyniadau, safle deddfwriaethol ac ystyriaethau ariannol tra'n darparu newid trawsnewidiol a mynd i'r afael â'r materion pwysicaf gan gynnwys yr argyfwng costau byw.

7.3 Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol

Mae ein meysydd ar gyfer ffocws yn y dyfodol a amlinellir isod wedi cael eu llywio gan amrywiaeth o brosesau hunanasesu gan gynnwys canfyddiadau hunanasesu Cyfarwyddiaethau; ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yr adolygiad o gynnydd wrth gyflawni ein hymrwymiaidau Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol; a chanfyddiadau hyd yma o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol ar ba mor dda yr ydym wedi bodloni'r ymrwymidau hyn (mae gweithgareddau ymgysylltu yn dod i ben ddiwedd mis Medi). Defnyddir y meysydd hyn er mwyn canolbwyntio er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu ein Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 a fydd yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2023

Pobl

- Mynd i'r afael â'n heriau recriwtio a chadw.
- Cynnal adolygiad o'n strwythurau cyflog.
- Gwella ein cynnig cyflogaeth.
- Cydweithio'n allanol i ddylanwadu ar sgiliau cyflogadwyedd a dewisiadau gyrfaol pobl ifanc.
- Gwella gallu digidol ein gweithlu.
- Hyrwyddo diwylliant gweithio o bell cadarnhaol.
- Gwella iechyd meddwl a lles gweithwyr.
- Cynyddu amrywiaeth ein gweithlu a hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant.
- Buddsoddi mewn rhaglenni sgiliau a chynlluniau cyflogadwyedd lleol.
- Datblygu sgiliau'r gweithlu i gefnogi Rhaglen Ail-lunio'r Cyngor.
- Meithrin gallu mewnol i weithio gyda'n gwirfoddolwyr i ddarparu gwasanaethau ar y cyd.
- Gwella cydweithio allanol ar gynllunio'r gweithlu.
- Defnyddio gwybodaeth i gynllunio'r gweithlu.
- Datblygu'r sgiliau arwain i sicrhau ein bod yn datblygu gweithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- Manteisio i'r eithaf ar ein defnydd o dechnoleg i wella ansawdd dysgu a chanlyniadau a lles dysgwyr.

Asedau

- Datblygu Rhaglen Adnewyddu a Buddsoddi Seilwaith Digidol dreigl.
- Ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy ein Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a phrosesau rheoli asedau.
- Datblygu Strategaeth Fuddsoddi sero net // carbon isel ar gyfer ein hasedau.
- Gwella integreiddio gwasanaethau a chynaliadwyedd wrth ddefnyddio ein hasedau.
- Datblygu ein defnydd o fewnwelediad data i lywio penderfyniadau am ein hasedau ac wrth gynllunio ar gyfer y tymor hir. • Adolygu ein Rhaglen Ad-drefnu a Buddsoddi mewn Ysgolion.
- Defnyddio ein portfolio eiddo i'r eithaf yn enwedig ar gyfer cyd-weithio/cyd-leoli.
- Gwella a datblygu ein defnydd o System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ymhellach o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gwella hygyrchedd ein gwasanaethau drwy ddulliau digidol.
- Gwella gwasanaethau Teleofal ymhellach i alluogi pobl i fyw'n annibynnol gartref.
- Datblygu a gweithredu cynllun cartrefi 'clyfar' i gefnogi annibyniaeth trigolion sy'n agored i niwed.
- Gwneud y gorau o gapasiti ac asedau cymunedol ar y cyd â'r Trydydd Sector.
-

Cyllid

- Llobio Llywodraeth Cymru ar gyfer setliad ariannol aml-flwyddyn gwirioneddol.
- Datblygu a chyhoeddi cynllun ariannol tymor canolig pum mlynedd treigl.
- Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a'n cymunedau wrth ailgynllunio a chyd-gynhyrchu gwasanaethau.
- Cryfhau capasiti a symleiddio ein swyddogaeth gaffael.
- Datblygu polisi caffael moesegol cynaliadwy.
- Datblygu fframwaith gwerth cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'n Hamcanion Lles yn y Cynllun Corfforaethol.
- Datblygu strategaeth fuddsoddi er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.
- Diweddarau ein Strategaeth Hamdden i hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol a lles.
- Cyhoeddi adroddiadau ariannol hawdd eu deall ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.
- Gwella'r her i ysgolion a'u cyrff llywodraethu o ran sefyllfaoedd ariannol.
- Gwneud y defnydd gorau posibl o arian grant ar draws gwasanaethau'r Cyngor i dargedu adnoddau'n effeithiol tuag at arloesi a thrawsnewid.
- Adolygu trefniadau codi tâl mewnol er mwyn gwneud y gorau o wariant cyfalaf.
- Rheoli'r galw am leoliadau i blant a phobl ifanc.
- Mynd i'r afael â materion rheoli galw sy'n wynebu gofal cymdeithasol drwy gydweithio ac arloesi effeithiol.
- Ymateb i nifer cynyddol o ddysgwyr sy'n agored i niwed sydd angen cymorth.
- Cydweithio gyda darparwyr a'n partneriaid i adeiladu sefydlogrwydd o fewn y farchnad gofal cymdeithasol.
- Canolbwyntiwch ar ddatblygu modelau newydd ar gyfer integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy.
- Bodloni ein gofynion ar gyfer darpariaeth iaith Gymraeg.
- Gwella lles cymdeithasol, emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc.

Ymgysylltu a Mewnwelediad

- Cyflawni ein Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd i wella lefelau ymgysylltu / cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau.
- Cynyddu cyfranogiad grwpiau anodd eu cyrraedd a gwarchoddedig yn ein gweithgareddau ymgysylltu er mwyn sicrhau bod barn ein dinasyddion yn gynrychioliadol o'n demograffeg.
- Datblygu dull hirdymor o ymgysylltu â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth gan lywio sut rydym yn cynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau.
- Gwella ymgysylltu a chyrraedd drwy ddefnydd cynyddol o offer digidol.

Perfformiad a Risg

- Datblygu a defnyddio dull integredig wrth ddefnyddio mewnwelediad a gwybodaeth perfformiad i lywio datblygu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.
- Gweithredu'r argymhellion gan ein rheoleiddwyr.
- Gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â'r heriau tymor hir sy'n gysylltiedig â Brexit, y pandemig a'r argyfwng costau byw.
- Ail-lunio gwasanaethau ymhellach mewn ymateb i dirwedd economaidd a llywodraeth leol sy'n esblygu'n gyflym.
- Gwella heriau'r Cyd-wasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De.

7.3 Meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol: Canfyddiadau Ymgysylltu

Isod ceir crynodeb o'r meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol a awgrymir gan y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn ystod yr ymarfer ymgysylltu. Rhaid nodi bod y mwyafrif o'r rhain, yn fras, yn dod dan y meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer y chwe thema Cynllun Cyflawni Blynyddol fel rhan o'r ymarfer ymgysylltu. Mae hyn yn rhoi sicrwydd pellach i'n canfyddiadau hunanasesiadau a'n cyfeiriad arfaethedig ar gyfer 2023/24. Caiff hyn ei ddefnyddio i lywio ein blaenoriaethau Cynllun Cyflawni Blynyddol a'r camau gweithredu Cynllun Gwasanaeth cysylltiedig ar gyfer 2023/24.

Cyhoeddus

- Gwella'r seilwaith cerdded a beicio, trafniadaeth gyhoeddus a hyrwyddo teithio llesol;
 - Diogelu bioamrywiaeth;
 - Cefnogi preswylwyr a busnesau i wneud cartrefi a busnesau presennol yn fwy ecogyfeillgar / ynni-effeithlon e.e. pŵer solar, technoleg pwmp gwres;
 - Lleihau adeiladu ar fannau gwyrdd a sicrhau bod gan bawb fynediad i natur;
 - Gwneud pwyntiau Cerbydau Trydan yn fwy hygyrch a fforddiadwy;
 - Cefnogi datblygu cynlluniau effeithlonrwydd ynni cymunedol a chynlluniau gwresogi cymdogaeth ar y cyd;
 - Cynyddu cyfleoedd ailgylchu i breswylwyr ac ymwelwyr;
 - Adeiladu diwylliant yn y Cyngor ac ymysg ein dinasyddion, sy'n parchu'r amgylchedd.
-
- Darparu mwy o gefnogaeth i deuluoedd sy'n gweithio sy'n cael trafferth gyda'r argyfwng costau byw;
 - Darparu mwy o gefnogaeth i dlodi tanwydd ac ansicrwydd bwyd drwy bartneriaethau cyhoeddus / preifat a mentrau gwirfoddol;
 - Cefnogi mentrau lles cymunedol e.e. mannau tyfu cyhoeddus a grwpiau cymunedol sydd â buddion cymdeithasol, meddyliol a chorfforol yn ogystal â rhoi sgiliau i drigolion dyfu a choginio cynnyrch ffres lleol;
 - Annog entrepreneuriaeth a chefnogi trigolion i helpu eu hunain a gwella eu rhagolygon cyflogaeth;
 - Cynyddu mynediad at fesurau effeithlonrwydd ynni ac ôl-osod i helpu i leihau costau ynni;
 - Atal digartrefedd a chefnogi'r rhai sy'n ddigartref.
-
- Cynnwys sefydliadau'r trydydd sector yn fwy yng ngwaith y Cyngor;
 - Mynd ati'n rhagweithiol i geisio, gwrando ac ymateb i brofiad dinasyddion (o bob oed) i lywio sut mae'r Cyngor yn llywio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau a dangos tryloywder drwy'r broses;
 - Defnyddio technoleg i'r eithaf i gynyddu ymgysylltiad â dinasyddion;
 - Targedu ac annog cyfranogiad gan gymunedau sydd wedi'u datgysylltu a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol;
 - Cynnwys cymunedau wrth lunio a darparu ymyriadau newid yn yr hinsawdd;
 - Nodi amcanion a thargedau blynyddol penodol er mwyn dangos yr hyn sy'n cael ei gyflawni.
-
- Gwella hygyrchedd i ofal plant i deuluoedd sy'n gweithio;
 - Mynd i'r afael â materion cadw mewn gofal cymdeithasol er mwyn gwella parhad gofal i breswylwyr;
 - Gwella'r cymorth i ddysgwyr mewn ysgolion yn enwedig oherwydd effaith y pandemig;
 - Gwella lles cymunedol (ar gyfer pob oedran) gan gynnwys iechyd meddwl mewn ffordd gynaliadwy;
 - Gwella mynediad at dai fforddiadwy a thai hygyrch;
 - Dod yn sefydliad sy'n deall dementia;
 - Cefnogi preswylwyr i aros gartref / byw yn annibynnol am fwy o amser;
 - Mwy o gydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol;
 - Gwella mynediad i wybodaeth a chyngor;
 - Gwella cymorth i ofalwyr (sy'n derbyn tâl a rhai di-dâl);

- Gwella cymorth i bobl hŷn, y rhai sydd ag anableddau a phobl ifanc.
- Gwneud gwefan y Cyngor yn haws i ddefnyddwyr;
- Gwella ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned;
- Mynd i'r afael ag allgáu digidol a sicrhau bod opsiynau dal ar gael i bobl gael mynediad at wasanaethau, yn enwedig y genhedlaeth hŷn;
- Bod yn fwy penodol ynglŷn â blaenoriaethau'r Cyngor a sut y byddwn ni'n mesur llwyddiant fel y gall pobl farnu a ydyn nhw wedi cael eu cyflawni;
- Cryfhau'r berthynas â chynghorau cymuned a sicrhau eglurder ynghylch disgwyliadau o ystyried yr heriau ariannol;
- Gwella dealltwriaeth y gymuned o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud, yr hyn y bydd yn ei wneud a'r hyn na all ei wneud a hyrwyddo diwylliant 'hunangymorth' o fewn cymunedau;
- Defnyddio technoleg newydd mewn ffordd bersonol, symud i ffordd o'r model canolfan alwadau;
- Gwella ymateb ac ansawdd gwasanaethau drwy gael staff y yngor yn ôl i'r swyddfeydd.

Staff y Cyngor

- Gwella ymhellach effeithlonrwydd carbon o fewn adeiladau ac asedau'r Cyngor;
- Gwella gwasanaethau trafndiaeth leol;
- Rhoi cymorth i wneud cartrefi presennol yn fwy ynni-effeithlon;
- Integreiddio seilwaith glas a gwyrdd a diogelu bioamrywiaeth;
- Hybu parch at yr amgylchedd gyda galwad i'r cyhoedd a staff wneud mwy.
- Canolbwyntio ar wasanaethau cyflogaeth, cael pobl oddi ar fudd-daliadau ac i mewn i waith;
- Cefnogi pobl sy'n gweithio / teuluoedd nad ydynt yn derbyn budd-daliadau;
- Cynyddu cymorth ar lefel gymunedol;
- Mwy o frys wrth ddelio â'r argyfwng costau byw.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion pobl ag anableddau er enghraifft mynediad i glybiau chwaraeon;
- Cefnogaeth i dimau'r Cyngor i sicrhau dull cyson a llawn adnoddau ar gyfer gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu;
- Mynd i'r afael â'r diffyg dealltwriaeth ynghylch y broses gwneud penderfyniadau a gwneud y broses ymgysylltu yn fwy ystyrlon.
- Cynyddu gwasanaethau a chyfleoedd i bobl hŷn, pobl ifanc a phobl ag anableddau;
- Cynyddu lefelau staffio ar draws y Cyngor yn enwedig Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Ehangu a chyflwyno prosiectau cymunedol yn y Fro ehangach nid dim ond mewn ardaloedd wedi'u targedu;
- Gwella cymorth iechyd a lles i gael preswylwyr economaidd anweithgar yn ôl i'r byd gwaith gan ganolbwyntio ar feysydd lle mae prinder fel gofal.
- Gwella rhwydwaith priffyrdd y Fro;
- Integreiddio a chysylltedd seilwaith gwyrdd / glas y dylid ei ystyried ar y camau cynharaf o gynllunio a datblygu prosiectau. Byddai hyn yn sicrhau bod digon o le, cyllid ac amser yn cael ei roi i'w weithredu'n briodol fel elfen sylfaenol o'r cyfan a wnawn fel awdurdod;
- Ailddatblygu safleoedd tir llwyd presennol i'w gwneud yn fwy apelgar i'r cyhoedd;
- Adeiladu mwy o gartrefi Cyngor a galluogi datblygwyr cymdeithasol a phreifat i gynyddu nifer y cartrefi y maen nhw'n eu hadeiladu yn sylweddol, mewn ffordd gynaliadwy;
- Gwneud gwella gwasanaethau yn flaenoriaeth cyn ceisio buddsoddi mewn adeiladau a thechnoleg;
- Datblygu a chynnig mwy o wasanaethau ar-lein tra'n cydnabod bod rhaid i ni hefydwella mynediad i wasanaethau i'r rhai sydd wedi eu heithrio'n ddigidol fel pobl hŷn;
- Cynyddu adnoddau staff i drawsnewid gwasanaethau a darparu prosiectau.